**Rhif: WG48214**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar Rwymedi o ran Gwahaniaethu ar Sail Oedran mewn Pensiynau Diffoddwyr Tân yng Nghymru 2023

Medi 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxx ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'n hymgynghoriad Rwymedi o ran Gwahaniaethu ar Sail Oedran mewn Pensiynau Diffoddwyr Tân yng Nghymru 2023', gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon at ddibenion gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais i gael fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Gwasanaethau Tân
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: fire@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y ddogfen ymgynghori: Diwygio cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru 2023

## Cynnwys


CYFLWYNIAD ........ 4

Y BROSES YMGYNGHORI ........ 5

CRYNODEB O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD ........ 6

CYNLLUN AELODAETH ........ 6

CYFRANIADAU ........ 7

MECANWEITHIAU DEWIS ........ 10

GOROESWYR A BUDDION GOROESWYR ........ 17

BUDDION PENSIWN YCHWANEGOL ........ 21

YSGARIAD A DIDDYMIAD ........ 24

TROSGLWYDDO RHWNG CYNLLUNIAU ........ 28

MATERION AMRYWIOL ........ 31

Y CAMAU NESAF ........ 35

ATODIAD 1 – RHESTR O'R YMATEBWYR ........ 36

## CYFLWYNIAD

1. Cyhoeddwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar “Rwymedi o ran Gwahaniaethu ar Sail Oedran mewn Pensiynau Diffoddwyr Tân yng Nghymru 2023” ar 31 Mawrth. Roedd yn delio â gweithredu rhwymedi gwahaniaethu ôl-weithredol ar sail oedran mewn cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yn unol â’r gofynion a nodir yn Neddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 (Deddf 2022). Mae’r rhwymedi yn cael ei gyflwyno o ganlyniad i heriau cyfreithiol llwyddiannus yn achosion McCloud ac eraill yn erbyn Arglwydd Ganghellor ac un arall, a Sargeant ac eraill yn erbyn Comisiynydd Tân Llundain ac eraill. Yn yr achosion hyn, canfu’r llysoedd fod gwarchodaeth drosiannol ar sail oedran a gyflwynwyd yng nghynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus yn 2015, a oedd yn caniatáu i’r rheini sydd agosaf at oedran ymddeol i aros yn eu cynlluniau gwaddol, yn gwahaniaethu yn erbyn aelodau iau.

2. Mae’r rhwymedi’n cynnwys dwy agwedd allweddol:-

- Bydd aelodau cymwys a gafodd eu symud i gynllun pensiwn newydd y diffoddwyr tân yn 2015 (neu’n ddiweddarach os oedd ganddynt ddiogelwch taprog) yn cael eu symud yn ôl i’w cynllun pensiwn gwaddol am y cyfnod y digwyddodd y gwahaniaethu – rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Roedd cynigion yr ymgynghoriad hefyd yn ymdrin â chanlyniadau hynny.

- Bydd yr holl aelodau yr effeithir arnynt yn gallu dewis, ar ôl ymddeol (neu ar unwaith, os ydynt eisoes wedi ymddeol), buddion y cynllun pensiwn y maent yn dymuno gwneud cais amdanynt am y cyfnod perthnasol (naill ai eu buddion gwaddol neu fuddion cynllun 2015.

3. Roedd cynigion yr ymgynghoriad yn delio â materion yn ymwneud â’r canlynol:

- ***Cynllun Aelodaeth*** – nodi’r rheini sydd â hawl i rwymedi, gan gynnwys y ffordd y caiff aelodau sydd â mwy nag un contract eu trin, a’r opsiwn i optio yn ôl i mewn i’r cynllun ar gyfer cyfnod y rhwymedi.

- ***Cyfraniadau*** – cywiro swm y cyfraniadau ar gyfer gwasanaeth cyfnod y rhwymedi, a swm y rhyddhad treth arnynt sy’n deillio o ddychweliad ôl-weithredol i gynlluniau gwaddol, a dewis gohiriedig neu ddewis ar unwaith ar gyfer gwasanaeth cyfnod y rhwymedi Cynllun 2015.

- ***Mecanweithiau Dewis*** – darparu dewis i’r holl aelodau yr effeithir arnynt rhwng gwasanaeth cyfnod y rhwymedi yn eu cynllun gwaddol neu yng Nghynllun 2015.

- ***Ymddeoliad ar sail afiechyd –*** ailystyried ymddeoliad ar sail afiechyd unrhyw aelodau yr effeithir arnynt yn ystod cyfnod y rhwymedi i asesu a fyddai’r meini prawf yn y cynllun amgen wedi cael eu bodloni.

- ***Goroeswyr a buddion goroeswyr*** – darparu hawl i oroeswyr cymwys aelodau o'r cynllun sydd wedi marw wneud dewis gohiriedig neu ddewis ar unwaith yn yr un ffordd ag y byddai'r aelod ymadawedig wedi'i wneud.

- ***Buddion pensiwn ychwanegol*** – darparu iawndal am gyfraniadau gwirfoddol a wnaed, a threfniadau adfer i dalu cyfraniadau gwirfoddol i gynlluniau gwaddol.

- ***Ysgariad a diddymiad*** – pennu'r buddion sy'n daladwy i aelodau credyd pensiwn a debyd pensiwn.

- ***Trosglwyddiadau*** – cywiro trosglwyddiadau o symiau adferol i mewn ac allan o'r cynlluniau.

## Y BROSES YMGYNGHORI

4. Dechreuodd ymgynghoriad deuddeg wythnos ar 31 Mawrth 2023 ac roedd yn agored i dderbyn ymatebion tan 23 Mehefin 2023. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 32 o gwestiynau, gydag opsiynau i ymateb i'r cwestiynau hynny drwy lenwi ffurflen ar-lein neu drwy e-bost. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

5. Roedd yr ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys offeryn statudol drafft, yn canolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- rhoi'r holl aelodau yn ôl yn eu cynlluniau gwaddol ar gyfer y cyfnod 2015 i 2022;
- cynnig dewis i aelodau o fuddion cynllun gwaddol neu gynllun 2015 ar gyfer gwasanaeth cyfnod y rhwymedi, yn unol â Deddf 2022.

6. Cafodd Llywodraeth Cymru 18 ymateb i'r ymgynghoriad. Daeth y 18 ymateb hynny o'r canlynol:

- Tri o'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru
- Tri o undebau llafur eraill a sefydliadau eraill sy'n cynrychioli diffoddwyr tân
- Un o Fwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân[1]
- Un o Heywood Pension Technologies
- Deg gan unigolion

7. Mae rhestr lawn o'r ymatebwyr ar gael yn **Atodiad A**.

8. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffai ddiolch i bawb a ymatebodd.

[1] Mae gan Fwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân Gadeirydd annibynnol ac mae'n cynnwys y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru; Undeb y Brigadau Tân; Cymdeithas yr Arweinwyr Tân; Cymdeithas y Swyddogion Tân; a Chymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub.

9. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Hasesiad Effaith Integredig ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori. Mae'r safbwynt polisi cyffredinol a nodir yn y ddogfen ymgynghori yn aros yr un fath ac mae wedi ffurfio sail y rheoliadau terfynol. Felly, nid oes unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud i'r Asesiad Effaith Integredig fel y cafodd ei gyhoeddi'n wreiddiol. Gellir dod o hyd i'r ddogfen yma.

## CRYNODEB O'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

10. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i bob un o'r cwestiynau penodol ac ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.

## CYNLLUN AELODAETH

**Cwestiwn 1 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig, lle'r oedd gan aelod â hawl gontractau cyflogaeth lluosog yn ystod cyfnod y rhwymedi gyda'r un cyflogwr, y dylai'r holl gontractau hynny gael eu cynnwys yn y rhwymedi, ni waeth pryd yr ymrwymwyd iddynt?**

11. Roedd 16 o'r 18 ymatebydd yn cytuno â'r dull gweithredu arfaethedig i ganiatáu i aelodau â hawl sydd â chontractau cyflogaeth lluosog yn ystod cyfnod y rhwymedi gyda'r un cyflogwr, gael eu cynnwys yn y rhwymedi mewn perthynas â'r holl gontractau hynny.

12. Ni roddodd dau ymatebydd eu barn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

13. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 2 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai'r holl aelodau yr effeithiwyd arnynt ac a ddewisodd beidio â bod yn aelodau o Gynllun 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi, gael yr hawl i optio yn ôl i mewn i'w cynlluniau gwaddol yn ôl-weithredol, heb orfod dangos pam eu bod wedi optio allan yn wreiddiol?**

14. Roedd 16 o'r 18 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno y dylai'r holl aelodau yr effeithiwyd arnynt a ddewisodd i optio allan yn ystod cyfnod y rhwymedi gael yr hawl i optio yn ôl i mewn i'w cynllun gwaddol yn ôl-weithredol heb roi tystiolaeth o'u rhesymau dros optio allan yn y lle cyntaf.

15. Cododd nifer o ymatebwyr y mater o aelodau a oedd wedi optio allan o'r cynllun rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2015, naill ai'n gofyn am eglurder ynghylch a yw'r aelodau hynny'n gallu optio yn ôl i'r cynllun ar gyfer cyfnod y rhwymedi neu'n cynnig y dylai aelodau o'r fath allu optio yn ôl i mewn i'r cynllun ar gyfer gwasanaeth o 1 Ebrill 2012 ymlaen ac nid gwasanaeth o 1 Ebrill 2015 ymlaen yn unig.

16. Gofynnodd un ymatebydd am eglurder ynghylch a fyddai aelod a oedd wedi optio allan yn ystod cyfnod y rhwymedi ac wedyn wedi optio yn ôl i mewn cyn 1 Ebrill 2022 yn gymwys o dan gynigion Llywodraeth Cymru. Gofynnodd ymatebydd arall am eglurder ynghylch yr oedran ymddeol a fydd yn berthnasol i aelodau sy'n optio yn ôl i mewn i'w cynlluniau gwaddol fel rhan o'r rhwymedi.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

17. O ystyried y gefnogaeth aruthrol i'n cynnig y dylai pob aelod yr effeithiwyd arnynt a ddewisodd optio allan o gynllun 2015 fod â hawl i optio yn ôl i mewn i'w cynllun gwaddol ar gyfer cyfnod y rhwymedi (o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022), rydym yn bwriadu parhau â'r polisi hwn. Nid yw Deddf 2022 yn caniatáu i aelodau optio yn ôl i mewn yn ôl am unrhyw gyfnod y tu allan i gyfnod y rhwymedi.

18. I egluro, ein bwriad yw y bydd gan unrhyw ddiffoddwr tân sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn adran 1 o Ddeddf 2022 yr hawl i optio i mewn i'r cynllun gwaddol perthnasol ar gyfer cyfnod y rhwymedi (neu ar gyfer y rhan honno o gyfnod y rhwymedi y gwnaethant ddewis optio allan ohono). Mae ein rheoliadau'n gwneud darpariaeth ynghylch rhai o'r gweithdrefnau y mae'n rhaid eu dilyn er mwyn gwneud dewis i optio i mewn, er enghraifft bod rhaid i ddewis gael ei wneud yn ysgrifenedig a rhaid iddo fod o fewn 12 mis i ddyddiad derbyn datganiad gwasanaeth adfer. Fodd bynnag, er bod Deddf 2022 yn darparu i reoliadau cynlluniau gynnwys amodau penodol lle gellir gwrthod cais, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnwys unrhyw amodau o'r fath yn rheoliadau'r cynllun.

19. Nid yw optio yn ôl i mewn yn ôl-weithredol yn gwneud unrhyw wahaniaeth i oedran ymddeol (neu oedran pensiwn arferol, i fod yn fwy manwl). Roedd gan aelodau o Gynllun 1992 (gan gynnwys y rheini sy'n optio yn ôl i mewn iddo'n ôl-weithredol) oedran pensiwn arferol o 55 tra oeddent yn y cynllun hwnnw. Fodd bynnag, yr oedran pensiwn arferol ar gyfer diffoddwyr tân sy'n gwasanaethu yw 60 erbyn hyn, fel sy'n ofynnol gan Gynllun 2015.

20. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

## CYFRANIADAU

**Cwestiwn 3 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau ad-dalu arian dros ben mewn cyfraniadau fel un cyfandaliad yn unig?**

21. Roedd 13 o ymatebwyr yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau ad-dalu arian dros ben mewn cyfraniadau fel un cyfandaliad. Cyfeiriodd un o'r ymatebwyr hyn yn benodol at yr effaith y gallai'r cynnig ei chael ar gyllidebau'r gwasanaeth tân. Ychwanegodd un o'r ymatebwyr hyn y dylai'r addasiad gael ei wneud pan fydd aelod yn ymddeol o'r cynllun, oherwydd y posibilrwydd y gallai'r

aelod ddewis buddion cynllun diwygiedig a fyddai'n golygu na fyddai unrhyw warged yn ddyledus.

22. Roedd un unigolyn yn anghytuno â'r dull gweithredu, ond roedd yn ymddangos ei fod wedi camddeall y cwestiwn, gan gredu ei fod yn cyfeirio at aelodau'n gorfod ad-dalu cyfraniadau.

23. Ni roddodd pedwar ymatebydd eu barn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

24. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pryder ynghylch yr effaith y gallai'r cynnig ei chael ar gyllidebau Awdurdodau Tân ac Achub. Nid ydym yn darparu cyllid craidd i Awdurdodau Tân ac Achub (ar gyfer costau pensiwn neu fel arall). Mae pensiynau diffoddwyr tân yn cael eu hariannu gan gyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr, yn ogystal â grant ychwanegol gan y Trysorlys. Bydd unrhyw addasiadau sy'n ofynnol yn cael eu gwneud drwy gyfrifon pensiwn a bydd y Trysorlys yn talu am ddiffygion mewn cyllid blynyddol drwy Wariant a Reolir yn Flynyddol. Bydd addasiadau canlyniadol i gyfraniadau cyflogwyr yn cael eu cynnwys mewn prisiadau yn y dyfodol.

25. Rydym yn nodi'r awgrym y dylai'r addasiad gael ei wneud pan fydd aelod yn ymddeol, ond nid yw Deddf 2022 yn caniatáu ar gyfer hyn. Ni all Llywodraeth Cymru gymryd unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r awgrym.

26. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 4 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion y dylid caniatáu i aelodau'r cynllun sydd â diffyg mewn cyfraniadau ddewis a ddylid ei ad-dalu fel cyfandaliad neu (os yw'r diffyg o leiaf £100) mewn rhandaliadau dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd?**

27. Roedd 15 o'r 18 ymatebydd yn cytuno â'n cynnig y dylid caniatáu i aelodau'r cynllun dalu diffyg mewn cyfraniadau fel cyfandaliad neu mewn rhandaliadau dros gyfnod o hyd at 10 mlynedd. Nododd sawl aelod fod y dull arfaethedig yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer talu cyfraniadau gan aelodau arbennig o gynllun 2007 (y cynllun wedi'i addasu), er y dywedodd un ymatebydd fod taliadau cyfnodol, yn enwedig drwy ddebyd uniongyrchol gan aelodau gohiriedig, yn ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod at y broses.

28. Teimlai un ymatebydd na ddylai aelodau gael llog ar unrhyw ddiffyg mewn cyfraniadau.

29. Nododd tri ymatebydd fod y dull gweithredu arfaethedig yn wahanol i'r cynigion yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mynegodd un o'r ymatebwyr hyn bryderon y byddai peidio â chaniatáu i gyfandaliad cyfraniadau llawn gael ei dalu o gyfandaliad aelod ar ôl ymddeol yn rhwystro aelodau rhag dewis buddion cynllun 1992. Roedd dau yn gofyn am eglurder ynghylch sut y byddai'r gwahaniaeth hwn

mewn dull gweithredu yn effeithio ar drosglwyddo rhwng cynlluniau, gan nodi y gallai’r gwahaniaeth gymhlethu gofynion adrodd a chadw cofnodion.

30. Dywedodd un ymatebydd ei bod hi’n bwysig gweithredu’r un taliad ar draws yr holl gynlluniau diffoddwyr tân lle bo hynny’n bosibl er mwyn lleihau rhagor o gymhlethdodau o ran meddalwedd a chyfrifo. Nododd yr un ymatebydd ei bod hi’n bwysig i Awdurdodau Tân ac Achub greu cofnod addasu cyfraniadau ar gyfer pob aelod, a’r angen i gyflwyno cyfrifiannell addasu cyfraniadau Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD) yn amserol a allai ryngwynebu mewn swmp i systemau gweinyddol.

31. Gofynnodd un ymatebydd a oedd gan reolwyr y cynllun ddisgresiwn i fynnu bod taliadau drwy gyfraniadau cyfnodol yn cael eu gwneud mewn llai na 10 mlynedd lle’r oedd y swm a oedd yn ddyledus gan yr aelodau, er enghraifft, yn fach iawn wrth gael eu rhannu dros y cyfnod hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

32. Mae’r rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn cytuno â’r dull gweithredu cyffredinol a nodir yn ein hymgynghoriad ar gyfer ad-dalu cyfraniadau ac, o’r herwydd, rydym yn bwriadu eu gweithredu fel y cynigiwyd. Rydym yn cydnabod y pryder a oedd yn cynnig y gallai peidio â chaniatáu i ddiffyg cyfraniadau llawn gael ei dalu o gyfandaliad aelod ar adeg ei ymddeoliad rwystro aelodau sy’n dewis buddion cynllun 1992; fodd bynnag, nid ydym yn credu bod hyn yn wir. Mae ein dull gweithredu yn gyson â’r dull a fabwysiadwyd mewn perthynas â phrynu aelodaeth yn y cynllun wedi’i addasu. Credwn mai’r dull o dalu cyfraniadau yw’r un mwyaf cyson â sefyllfa aelodau nad effeithir arnynt ac aelodau gwarchodedig, nad ydynt erioed wedi cael yr opsiwn o fasnachu cyfraniadau is am gyfandaliad is. At ei gilydd, felly, credwn mai ein cynigion gwreiddiol sy’n diwallu anghenion aelodau sy’n dychwelyd i’r cynlluniau gwaddol, gan beidio â chyflwyno gwahaniaethu pellach yn erbyn aelodau eraill o’r cynlluniau pensiwn.

33. Nodwn sylwadau ymatebwyr am y gwahaniaethau mewn dull gweithredu ar draws y DU gan ychwanegu at gymhlethdodau meddalwedd a’r angen am eglurder ar faterion fel trosglwyddiadau. Nododd un ymatebydd bwysigrwydd cofnod addasu cyfraniadau ar gyfer pob aelod yr effeithir arnynt, ac rydym yn cytuno bod hwn yn adnodd gweinyddol pwysig y gall pob Awdurdod ei ddefnyddio'n gyson. Bydd rheolau’r cynllun ar gyfer pob gwlad yn berthnasol i gyfraniadau sy’n ddyledus o ran trosglwyddiadau rhwng cynlluniau diffoddwyr tân fel y gwnânt rhwng cynlluniau eraill yn y sector cyhoeddus a chynlluniau diffoddwyr tân, a bydd cofnod addasu cyfraniadau yn darparu gwybodaeth bwysig ar gyfer trosglwyddiadau rhwng gwasanaethau yng Nghymru, rhwng gwasanaethau Cymraeg a gwasanaethau mewn mannau eraill yn y DU, a chyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, yn ogystal â chael ei ddefnyddio fel cofnod mewnol. Fodd bynnag, dull gweinyddol yw hwn ac nid ydym yn credu bod angen deddfu ar ei gyfer. Mae hwn yn un o nifer o feysydd lle byddem yn disgwyl, er enghraifft, i’r Gymdeithas Llywodraeth Leol gefnogi’r gwaith o gynhyrchu adnoddau a thempledi cyson.

34. O ran ad-dalu mewn rhandaliadau, mae rheoliadau'r cynllun yn darparu ar gyfer cytuno ar delerau trefniant i ad-dalu mewn rhandaliadau rhwng rheolwr y

cynllun a'r aelod unigol.  Yr unig amod yw na ddylai’r cytundeb fod yn hwy na deng mlynedd.

35. Mae Trysorlys EF wedi nodi sut i ddefnyddio llog ar symiau sy’n ddyledus i aelodau’r cynllun a symiau sy’n ddyledus ganddynt yn y Cyfarwyddiadau o dan Ddeddf 2022.  Mae’n ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â’r cyfarwyddiadau hynny.

36. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu’r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 5 – I ba raddau ydych chi’n cytuno â’n cynigion y dylai aelodau’r cynllun sydd â hawl i gael ad-daliad o gyfraniadau cyfnod y rhwymedi fod â hawl i’w hepgor, er mwyn osgoi gorfod ei ad-dalu ar ôl ymddeol?**

37. Roedd 14 o ymatebwyr yn cytuno â’n cynnig i ganiatáu i aelodau’r cynllun sydd â hawl i gael ad-daliad i’w hepgor, er mwyn osgoi gorfod ei ad-dalu ar ôl ymddeol.  Fe wnaeth un o’r ymatebwyr ailadrodd eu hawgrym blaenorol, sef mai dim ond ar adeg dewis buddion y dylid addasu unrhyw gyfraniadau.  Awgrymodd un o’r ymatebwyr hyn y byddai’n ddefnyddiol cael dull gweithredu cyson ar draws y tri Awdurdod Tân ac Achub i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw’n gywir.  Fe wnaeth un o’r ymatebwyr hyn dynnu sylw at anghysondeb rhwng ein dogfen ymgynghori a’r rheoliadau drafft ynghylch amseriad cais o’r fath.

38. Ni roddodd pedwar ymatebydd eu barn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

39. Rydym yn nodi barn yr ymatebwyr ac yn cytuno ei bod yn synhwyrol bod y tri Awdurdod Tân ac Achub yn defnyddio dull cyson wrth gynnal cofnodion cyflogaeth unigolion.  Fodd bynnag, rydym o’r farn bod hwn yn fater gweinyddol ac nid yw’n fater y dylid ei adlewyrchu yn y rheoliadau.

40. Rydym yn cydnabod y gwall a nodwyd mewn perthynas â’r amserlen ar gyfer gofyn i hepgor ad-daliad mewn cyfraniadau hyd at ymddeoliad, a byddwn yn cywiro hynny yn fersiwn derfynol y rheoliadau i adlewyrchu bod gan aelod hyd at 12 mis i wneud y cais hwnnw.

41. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

## MECANWEITHIAU DEWIS

**Cwestiwn 6 – I ba raddau ydych chi’n cytuno â’n cynigion bod rhaid i’r penderfyniadau ar unwaith o ran dewis gael ei wneud yn ysgrifenedig, ac y byddant yn ddi-droi’n-ôl?**

42. Roedd 15 o'r 18 ymatebydd yn cytuno y dylid gwneud y penderfyniadau ar unwaith o ran dewis yn ysgrifenedig. Nododd 11 ymatebydd hefyd eu bod yn cytuno y dylai penderfyniad gael ei wneud yn ddi-droi'n-ôl, er bod dau ymatebydd (y ddau yn cynrychioli diffoddwyr tân) wedi mynegi pryderon am benderfyniad aelod yn ddi-droi'n-ôl, gydag un yn dweud y dylai aelod allu newid ei benderfyniad os oedd y penderfyniad hwnnw'n seiliedig ar wybodaeth anghywir a ddarparwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub, ac un arall yn nodi y dylai aelod allu diddymu penderfyniad hyd nes y gweithredir arno a bod y buddion yn cael eu talu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

43. Rydym yn nodi bod yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'n cynigion. Rydym hefyd yn nodi pryderon ymatebwyr ynghylch natur ddi-droi'n-ôl dewis ar unwaith aelod. Fodd bynnag, mae'r gofyniad hwn yn orfodol o dan Ddeddf 2022, ac felly nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau i newid y sefyllfa.

44. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 7 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion canlynol am benderfyniadau dewis gohiriedig:**

- **rhaid iddynt gael eu gwneud yn ysgrifenedig;**
- **rhaid eu gwneud heb fod yn hwyrach na'r dyddiad un flwyddyn cyn i fuddion ddod yn daladwy, a'r dyddiad y mae'r aelod yn rhoi hysbysiad o hawliad am fuddion pensiwn; a**
- **gall yr aelod eu diddymu a'u hail-wneud cyn i'r buddion gael eu talu?**

45. Roedd 12 o'r 18 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Roedd dau yn anghytuno ond nid oeddent yn nodi eu rhesymau. Nid oedd y pedwar ymatebydd arall naill ai'n gwneud sylwadau o gwbl neu nid oeddent yn nodi a oeddent yn cytuno ai peidio.

46. Nododd rhai ymatebwyr mai dim ond os oeddent wedi cael yr wybodaeth berthnasol a chywir sydd ei hangen i wneud dewis y gallai aelodau wneud dewis gohiriedig, a thynnodd un ymatebydd sylw at bwysigrwydd templedi a ddefnyddir gan bob rheolwr cynllun i sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth a negeseuon ar draws yr holl wasanaethau ac i'r holl aelodau.

47. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod angen amserlenni cliriach ar gyfer dewisiadau aelodau er mwyn sicrhau amserlenni digonol ar gyfer talu gweinyddu a phensiynau, a hefyd i bennu dyddiad canslo ar gyfer dirymu dewis aelodau er mwyn atal penderfyniadau rhag cael eu dirymu pan fydd y broses weinyddol ar gyfer talu'r pensiwn eisoes ar waith.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

48. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gwybodaeth a negeseuon cyson ar draws gwasanaethau yn hanfodol. Rydym yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol i Awdurdodau weithio gyda'i gilydd i gynhyrchu templedi priodol sy'n cynnwys data a

negeseuon allweddol i aelodau i gefnogi eu prosesau gwneud penderfyniadau. Mae’n amlwg bod angen i’n cynigion weithio’n ymarferol ac felly rydym yn cydymdeimlo â’r materion a godwyd ynghylch eglurder ynghylch amserlenni ar gyfer dewisiadau aelodau ac amserlenni ar gyfer prosesau gweinyddol. Rydym felly wedi diwygio rheoliadau’r cynllun i gynnwys terfynau amser a hyblygrwydd o’r fath ar gyfer rheolwyr cynlluniau. Mae’r rhain yn cynnwys bod angen penderfyniad ynghylch dewis gohiriedig o fewn 3 mis i gyhoeddi Datganiad Gwasanaeth Adferol (RSS), neu’r diwrnod cyn y byddai pensiwn yn daladwy os yw’n gynharach, neu ar ddyddiad y mae rheolwr y cynllun yn ei ystyried yn rhesymol.

49. Mae’r rheoliadau eisoes yn cynnwys dyddiad cau ar gyfer canslo mewn perthynas ag aelod yn dirymu ei benderfyniad ynghylch dewis gohiriedig, sydd bythefnos cyn y diwrnod y gwneir y taliad cyntaf, neu unrhyw amser diweddarach cyn y diwrnod talu y mae rheolwr y cynllun yn ystyried ei fod yn rhesymol.

50. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 8 – I ba raddau ydych chi’n cytuno â’n cynigion y dylai aelodau sy’n dymuno ymddeol yn fuan ar ôl 1 Hydref 2023, ac y mae’r dyddiad cau ar gyfer gwneud dewis gohiriedig eisoes wedi mynd heibio ar y dyddiad hwnnw, allu ymddeol ar y sail bod gwasanaeth cyfnod y rhwymedi yn eu cynllun gwaddol; ac y dylent allu gwneud dewis ar unwaith ar ôl ymddeol?**

51. Roedd yn ymddangos bod 17 o’r 18 ymatebydd yn cytuno â’n cynigion, er bod rhai’n cynnig sylwadau pellach. Roedd un ymatebydd o’r farn bod y cynnig yn adlewyrchu egwyddor Deddf 2022, i ddarparu dewis ymddeol o dan y cynlluniau gwaddol a’r cynlluniau diwygiedig.

52. Cyfeiriodd un ymatebydd at y rhyngweithio rhwng y rheoliadau ac adran 61 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac awgrymodd y dylai pob Awdurdod fabwysiadu’r dull o brosesu achosion dewis ar unwaith, a ddefnyddir gan *bob* Awdurdod Tân ac Achub. Cyfeiriodd un ymatebydd at yr effaith weinyddol y byddai’r cynnig yn ei chael, gan y byddai angen ailedrych ar y cyfrifiadau. Ni roddodd un ymatebydd ei farn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

53. Rydym yn nodi bod yr ymatebwyr yn cytuno’n gyffredinol â’n cynigion.

54. Rydym yn nodi barn yr ymatebwyr ar y dull a ddefnyddir gan Awdurdodau Tân ac Achub ar achosion o niwed ar unwaith. Fodd bynnag, mater i reolwyr y cynllun yw hynny, nid i Lywodraeth Cymru na’r rheoliadau hyn.

55. Rydym yn nodi barn yr ymatebwyr ar y goblygiadau o ran adnoddau, ond mae'n bwysig bod Awdurdodau Tân ac Achub yn darparu gwybodaeth gywir i aelodau er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad gwybodus, ar ôl derbyn eu Datganiad Gwasanaeth Adferol, ynghylch a ddylid dewis gwasanaeth cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 neu eu cynllun gwaddol.

56. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 9 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion y dylai aelodau sydd â nifer o gontractau gyda'r un cyflogwr wneud dewisiadau ar wahân ar unwaith neu ohiriedig mewn perthynas â phob contract?**

57. Roedd 15 o'r 18 o ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig. Roedd ymatebion gan gynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr yn cydnabod bod rhoi hyblygrwydd i aelodau wneud dewisiadau ar unwaith neu ddewisiadau gohiriedig ar wahân mewn perthynas â phob contract yn rhesymol.

58. Roedd un ymatebydd yn anghytuno â'n cynnig ond ni roddodd esboniad. Ni roddodd dau ymatebydd eu barn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

59. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 10 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylid ystyried bod aelodau neu eu goroeswyr nad ydynt yn gwneud dewis ar unwaith neu ddewis gohiriedig erbyn y dyddiad cau penodedig wedi dewis gwasanaeth cyfnod y rhwymedi'n awtomatig yn eu cynllun gwaddol?**

60. Roedd 12 o'r 18 ymatebydd yn cytuno â'n cynnig, gyda rhai yn nodi nad oedd yn briodol i reolwyr cynlluniau gael eu rhoi mewn sefyllfa o wneud dewis ar ran aelod. Ni wnaeth tri ymatebydd arall unrhyw sylw o gwbl. Awgrymodd dau ymatebydd y dylid cynnwys safbwynt cyffredinol er mwyn i reolwyr cynlluniau wneud penderfyniad ar ran aelod, neu oroeswr aelod ymadawedig lle'r oedd yn glir bod buddion cynllun amgen yn hytrach na buddion cynllun diofyn yn fwy buddiol, a lle gallai diffyg penderfyniad gael ei briodoli i'r ffaith nad oedd rheolwr y cynllun yn gallu cysylltu â'r aelod perthnasol neu'r penderfynwr cymwys. Darparwyd enghreifftiau o achosion lle nad y cynllun diofyn efallai oedd y cynllun mwyaf buddiol.

61. Nododd un ymatebydd y dylid gwneud pob ymdrech i annog aelodau a'u dibynyddion i wneud dewis cadarnhaol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

62. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn gyntaf bod y cwestiwn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad ychydig yn gamarweiniol. Y sefyllfa ddiofyn arfaethedig ar gyfer aelodau (ond nid eu goroeswyr: gweler isod) pe na bai penderfyniad yn cael ei wneud yw'r cynllun gwaddol. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gyson â'n cynigion ar gyfer goroeswyr ym Mhennod 5 yr ymgynghoriad, y sefyllfa ddiofyn ar gyfer goroeswyr pe na bai'r penderfynwr cymwys yn cael ei ddewis yw cynllun 2015. Mae hynny am y rhesymau a ddisgrifir ym Mhennod 5 lle rydym yn defnyddio'r egwyddor

bod cynllun 2015 yn darparu ar gyfer dull ehangach a mwy cynhwysol o ymdrin â hawliau goroeswyr. Adlewyrchir hyn yn y rheoliadau.

63. Rydym yn gwerthfawrogi y gall fod nifer cyfyngedig o sefyllfaoedd lle nad yw'r sefyllfa ddiofyn, ar yr olwg gyntaf, yn fwyaf buddiol i aelod neu ei oroeswr. Fodd bynnag, gall dewisiadau ynghylch y manteision mwyaf ffafriol i unigolyn arwain at oblygiadau eraill fel cyfraniadau dyledus, buddion goroeswr gwahanol, ac effeithiau eraill ar sefyllfa bersonol ac ariannol unigolyn. Rydym felly'n credu'n gryf na fyddai'n rhesymol disgwyl i reolwr cynllun wneud penderfyniad o'r fath. Yn hytrach, dylai rheolwyr cynlluniau wneud pob ymdrech i gysylltu â'r unigolyn perthnasol, rhoi iddynt yr holl wybodaeth berthnasol maen nhw ei angen i wneud penderfyniad, gan gynnwys disgrifio goblygiadau peidio â gwneud hynny, er mwyn annog ymateb priodol.

64. Os na fyddai modd cysylltu ag aelod, er gwaethaf ymdrechion o'r fath, yna byddai'r sefyllfa ddiofyn yn berthnasol. Nid oes rheswm dros drin yr achosion hyn yn wahanol i'r rhai lle cysylltir ag aelod ond nad yw'n gwneud penderfyniad.

65. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 11 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai aelodau â hawl a gafodd ymddeoliad ar sail afiechyd yn ystod cyfnod y rhwymedi gael eu hailasesu yn erbyn meini prawf eu cynllun gwaddol neu Gynllun 2015 yn ôl y digwydd, a chynnig dewis ar unwaith rhwng yr hawliau sy'n deillio o hynny; ond na allant gael hawl awtomatig i gael eu hailgyflogi?**

66. Roedd yr holl ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn cefnogi'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori, er bod rhai wedi gwneud sylwadau pellach.

67. Holodd un ymatebydd a fyddai cost atgyfeiriadau pellach at ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol yn cael ei thalu gan gyflogwyr neu gan Lywodraeth Cymru.

68. Holodd un ymatebydd sut roedd y cynigion a'r rheoliadau drafft yn rhyngweithio ag adran 61 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ymgorffori, ym mhob cynllun pensiwn sector cyhoeddus a phreifat, "rheol dim gwahaniaethu", sy'n mynnu bod rheolwyr cynlluniau'n arfer eu swyddogaethau mewn ffyrdd nad ydynt yn gwahaniaethu ar sail nodwedd warchodedig. Fe wnaeth yr ymatebydd hefyd dynnu sylw at yr angen i gyflogwyr brosesu achosion "niwed ar unwaith" fel y mae'n cael ei alw (h.y., pobl sydd eisoes â hawl i ymddeol fel aelodau o'u cynllun gwaddol, boed hynny ar sail iechyd gwael neu fel arall) gan ddibynnu ar adran 61 ac roedd yn gofyn i ymateb yr ymgynghoriad egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn.

69. Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at wallau a hepgoriadau posibl yn y rheoliadau drafft a oedd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

70. Costau cyfeirio at ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol yw costau cyflogi'r staff sy'n cael eu cyfeirio. Byddant yn cael eu talu gan gyflogwyr ym mhob sefyllfa; nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gyllid ar gyfer costau cyflogi diffoddwyr tân.

71. Mae adran 61 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn effeithio ar bob cynllun pensiwn a, lle bo angen, yn diystyru rheolau'r cynllun. Er bod ein cynigion ar ymddeoliad ar sail afiechyd (ac yn fwy cyffredinol) yn ceisio cywiro gwahaniaethu anghyfreithlon, nid oes angen i'r rheoliadau ar ymddeoliad ar sail afiechyd "gydnabod" neu "ymgorffori" telerau adran 61 yn benodol; yn syml, mae angen iddynt fod yn gyson â'r egwyddor na ddylai rheolwyr cynlluniau wahaniaethu. Credwn eu bod.

72. Rydym yn cydnabod bod y llysoedd wedi dyfarnu bod adran 61 yn darparu sail ar gyfer cyflogi Awdurdodau Tân ac Achub i brosesu achosion "niwed ar unwaith" cyn newid rheolau'r cynllun, gan y dylid cymryd bod y rheolau hynny'n cynnwys y rheoli "dim gwahaniaethu". Fodd bynnag, mater i gyflogwyr yw hynny, nid i Lywodraeth Cymru na'r rheoliadau hyn.

73. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r ymatebwyr a dynnodd sylw at wallau a hepgoriadau posibl yn y rheoliadau drafft. Byddwn yn gwneud cywiriadau priodol i'r fersiwn terfynol.

74. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 12 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig na ddylai fod yn ofynnol i reolwyr cynlluniau ailedrych ar achosion lle gwrthodwyd ymddeoliad ar sail afiechyd i aelodau â hawl a bu'n rhaid iddynt aros mewn cyflogaeth?**

75. Roedd 14 o'r 16 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cefnogi'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori, er bod rhai wedi gwneud sylwadau pellach.

76. Nid oedd dau o'r ymatebwyr yn cytuno, gan gredu y dylid ailedrych ar achosion lle gwrthodwyd ymddeoliad ar sail afiechyd i aelodau a bu'n rhaid iddynt aros mewn cyflogaeth, gyda'r bwriad, mae'n debyg, o gynnig rhyw fath o ymddeoliad ar sail afiechyd rhagolygol neu ôl-weithredol.

77. Roedd dau ymatebydd yn cytuno â'r cynigion, ond yn nodi y gallai cymhlethdodau godi i aelodau a oedd yn dal mewn cyflogaeth ond ar gyflog is neu ddim cyflog (oherwydd absenoldeb salwch estynedig).

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

78. Yn gyffredinol, nid ydym yn credu ei bod yn briodol i aelodau'r cynllun y gwrthodwyd ymddeoliad ar sail afiechyd iddynt ac a barhaodd mewn cyflogaeth gael rhywfaint o hawl i ymddeol ar sail iechyd gwael pe baent wedi bodloni'r meini prawf ymddeoliad ar sail afiechyd llai llym yng Nghynllun 1992. Yn gyntaf, ni all hynny fod yn hawl ôl-weithredol, gan ei bod yn debygol y bydd yr aelodau dan sylw wedi

parhau i ennill cyflog, talu cyfraniadau pensiwn, ac wedi bod yn ddarostyngedig i’r holl delerau ac amodau cyflogaeth eraill, yn y cyfamser. Ni ellir gwrthdroi hynny’n synhwyrol. Yn ail, nid ydym yn credu ei bod yn gwneud synnwyr cynnig ymddeoliad ar sail afiechyd i unigolion o’r fath nawr chwaith. Maent o reidrwydd yn addas i weithio, a byddai’n wrthnysig (ac yn gwbl groes i’w buddiannau hwy neu eu cyflogwyr) i’w hymddiswyddo ar sail afiechyd. Byddai hefyd yn anghyson â’r egwyddor bwysig bod ymddeoliad ar sail afiechyd yn cael ei yrru gan gyngor meddygol; nid mater o ddewis i gyflogwr neu weithiwr ydyw.

79. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod achosion lle gwrthodwyd ymddeoliad ar sail afiechyd i unigolyn a’i fod wedi parhau mewn cyflogaeth ond wedi cael llai o gyflog neu ddim cyflog oherwydd absenoldeb salwch hirdymor, yn fwy cymhleth. Gallai unigolion o’r fath elwa o gael eu hachosion wedi’u hailarchwilio, ac mae’n bosibl y gellid caniatáu ymddeoliad ar sail afiechyd yn ôl-weithredol heb rai o’r cymhlethdodau a nodir uchod.

80. Credwn fod datrys hyn yn dibynnu ar sut cafodd pob achos ei gwblhau mewn gwirionedd. Pe bai unigolyn o’r fath yn cael ei ddiswyddo ar sail analluogrwydd neu bresenoldeb gwael, yna byddai’n rhaid ail-archwilio ei achos o dan y cynigion a nodir yn y ddogfen ymgynghori (gweler cwestiwn 13 isod).

81. Ar y llaw arall, pe bai’n parhau i gael ei gyflogi ar gyflog is neu ddim cyflog ar ddiwedd cyfnod y rhwymedi, yna byddai unrhyw ymddeoliad ar sail afiechyd dilynol yn cael ei drin o dan reolau Cynllun 2015 – sydd, fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, yn gyffredinol yn llai buddiol na Chynllun 1992. Yn yr achos hwnnw, gallai fod yn briodol i’r cyflogwr ddigolledu’r unigolyn am y gwahaniaeth rhwng pensiwn y Cynllun 2015 a dderbyniwyd a phensiwn Cynllun 1992 a fyddai wedi’i dderbyn pe bai ymddeoliad ar sail afiechyd wedi’i ganiatáu ar adeg y gydnabyddiaeth wreiddiol. Mae gan reolwyr cynlluniau eisoes y pŵer i wneud hyn o dan adran 23 o Ddeddf 2022, ac nid oes angen darparu ar ei gyfer yn ein rheoliadau drafft.

82. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 13 – I ba raddau ydych chi’n cytuno â’n cynnig y dylai fod yn ofynnol i reolwyr cynllun:**

- **ailarchwilio achosion lle gwrthodwyd ymddeoliad ar sail afiechyd i aelodau yr effeithiwyd arnynt yr oedd eu cynllun gwaddol yn rhan o Gynllun 1992 ond eu bod wedi cael eu diswyddo ar sail ffitrwydd a/neu bresenoldeb gwael? a;**
- **cynnig dewis ar unwaith rhwng pensiwn afiechyd Cynllun 1992 a phensiwn gohiriedig Cynllun 2015 i unrhyw aelod y canfyddir ei fod wedi cymhwyso ar gyfer ymddeoliad ar sail afiechyd o dan y Cynllun blaenorol?**

83. Roedd pob un o'r 15 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cefnogi'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

84. Nododd dau ymatebydd nad yw’n ymddangos bod ein rheoliadau drafft yn gwneud darpariaeth ar gyfer achosion fel y rhain, gan eu bod wedi’u cyfyngu i aelodau a oedd â hawl i ymddeoliad ar sail afiechyd yn ystod cyfnod y rhwymedi, gan eithrio’r rhai yr ystyriwyd ymddeoliad ar sail afiechyd ar eu cyfer ond fe’i gwrthodwyd.

85. Holodd un ymatebydd a ellid cynnig dewis ar unwaith rhwng pensiwn afiechyd Cynllun 1992 a phensiwn gohiriedig Cynllun 2015, gan y byddai’r cyntaf fel arfer yn cael ei dalu’n awtomatig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

86. Rydym yn cytuno nad oedd ein rheoliadau drafft yn ymdrin yn ddigonol â’r achosion hyn. Bydd y fersiwn derfynol yn gwneud hynny, ac rydym yn ddiolchgar iawn i’r ymatebwyr a dynnodd sylw at yr hepgoriad hwn.

87. Bydd y rheoliadau’n darparu y bydd achos unrhyw un y mae ei gynllun gwaddol yn Gynllun 1992 ac a ystyriwyd ar gyfer ymddeoliad ar sail afiechyd ac a gyfeiriwyd at ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol yn cael ei ailystyried yn erbyn meini prawf Cynllun 1992 os (a) bydd yr ymarferydd meddygol cymwysedig annibynnol wedi penderfynu nad oedd cyfiawnhad dros ymddeol ar sail afiechyd; a (b) bod yr aelod wedi'i ddiswyddo (neu wedi ymddiswyddo) o fewn tri mis i'r penderfyniad hwnnw. Y tu hwnt i’r pwynt hwnnw, credwn ei bod yn deg eu trin fel petaent wedi parhau mewn cyflogaeth (gweler cwestiwn 12 uchod).

88. Nid oes problem gyda’r dewis rhwng pensiwn afiechyd Cynllun 1992 a phensiwn gohiriedig Cynllun 2015 a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori. Mae’n bwysig nodi y bydd *pob* aelod sydd â hawl i rwymedi (neu eu goroeswyr) yn gwneud dewis ar unwaith neu ddewis gohiriedig, ni waeth pryd y byddant yn ymddeol neu ar ba sail.

89. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

## GOROESWYR A BUDDION GOROESWYR

**Cwestiwn 14 – I ba raddau ydych chi’n cytuno â’n cynnig sy’n nodi pan fydd aelod o’r cynllun sydd â hawl yn marw heb wneud dewis ar unwaith neu ddewis gohiriedig:**

- **y dylai’r dewis hwnnw gael ei wneud gan “benderfynwr cymwys” fel y’i diffinnir ym mharagraff 111 uchod; ac**
- **y dylid defnyddio meini prawf Cynllun 2015 ym mhob achos i nodi’r penderfynwr cymwys**

90. O’r 15 ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn, roedd dau yn anghytuno â’r cynigion yn y ddogfen ymgynghori ond ni roddodd unrhyw resymau dros wneud hynny. Cytunodd y gweddill, er bod rhai yn cynnig sylwadau pellach.

91. Awgrymodd un ymatebydd y dylai aelodau’r cynllun roi gwybod i reolwyr cynlluniau pwy yw’r penderfynwr cymwys; awgrymodd un y dylai rheolwyr cynlluniau

gael disgresiwn i benderfynu pwy yw'r penderfynwr cymwys mewn achosion anodd; ac awgrymodd un, ar gyfer marwolaethau a ddigwyddodd yn ystod cyfnod y rhwymedi, y dylid penderfynu ar y penderfynwr cymwys yn unol â rheolau'r cynllun yr oedd yr ymadawedig yn aelod ohono ar adeg y farwolaeth.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

92. Yn y ddogfen ymgynghori, rydym wedi nodi pam ein bod yn credu y dylai Cynllun 2015 fod yn sail ar gyfer dewis y penderfynwr cymwys. Y rheswm am hyn yw ei fod yn trin partneriaid sy'n cyd-fyw ar delerau cyfartal â phartneriaid priod a phartneriaid sifil ac felly mae'n fwy tebygol o arwain at ganlyniad sy'n adlewyrchu amgylchiadau domestig yr ymadawedig yn deg. Nid ydym yn bwriadu newid y sefyllfa honno, er enghraifft i ddarparu y dylai'r penderfynwr cymwys ar gyfer aelod a fu farw yn ystod cyfnod y rhwymedi ac sydd bellach i'w ddychwelyd yn ôl-weithredol i Gynllun 1992 gael ei benderfynu gan ddefnyddio rheolau Cynllun 1992. Gallai hynny olygu gwrthod buddion i bartner yr ymadawedig, y byddai'n rhesymol iddo ef neu hi ddisgwyl eu derbyn.

93. Y rheswm dros ddefnyddio'r dull hwn yw enwi penderfynwr cymwys yn awtomatig ym mhob achos, ac i atal rheolwyr cynlluniau rhag gorfod gwneud penderfyniadau sensitif am ddewisiadau ac amgylchiadau domestig yr ymadawedig: materion na allent fod yn ymwybodol ohonynt. Felly, nid ydym yn gweld yr achos dros roi pwerau i reolwyr cynlluniau gymryd rhan yn y broses hon.

94. Rydym yn cytuno y byddai'n synhwyrol i aelodau'r cynllun roi gwybod i reolwyr y cynllun am hunaniaeth debygol y penderfynwr cymwys, yn enwedig os yw'n ŵr/gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cyd-fyw na fyddai rheolwr/wraig y cynllun yn ymwybodol ohonynt fel arall. Byddai gwneud hynny'n arbed amser a'r angen am ymchwiliadau ymwthiol yn ystod y cyfnod anodd ar ôl marwolaeth yr aelod. Fodd bynnag, ni all hyn fod yn broses o enwebu unrhyw berson a ddewisodd yr aelod o'r cynllun: byddai'r penderfynwr cymwys fel arfer yn rhywun sy'n debygol o gael buddion goroeswr eu hunain, ac ni ddylai hynny gael ei amrywio gan benderfyniad aelod o'r cynllun. Nid ydym ychwaith yn meddwl bod angen hysbysiadau o'r fath, gan y gallai hynny wrthod yn annheg unrhyw fuddion o gwbl i oroeswyr pe na bai hysbysiad yn cael ei roi. Yn hytrach, byddem yn cynghori rheolwyr cynlluniau i gasglu'r wybodaeth hon gan aelodau'r cynllun yn wirfoddol. Byddai Awdurdodau Tân ac Achub fel arfer yn cofnodi manylion perthynas agosaf diffoddwyr tân, er mwyn caniatáu ar gyfer hysbysiadau os bydd anafiadau yn y gwaith ac yn y blaen, a byddai'r broses hon yn debyg.

95. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 15 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynigion canlynol:**

- **Os nad oes cytundeb ynghylch pwy yw'r penderfynwr cymwys, neu os yw'r penderfynwr cymwys yn methu â gwneud penderfyniad erbyn y dyddiad cau, rhaid i reolwr y cynllun benderfynu bod penderfyniad ar gyfer gwasanaeth cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 wedi'i wneud; ac**

- **Os bydd aelod o'r cynllun yn gwneud dewis dilys ar unwaith neu ddewis gohiriedig cyn iddo/iddi farw, bydd y dewis hwnnw'n cael ei anrhydeddu ac ni fyddai gan unrhyw oroeswr hawl i'w ailystyried.**

96. O'r 16 ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 14 yn cefnogi'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori. Roedd dau yn anghytuno, ond nid oedd un o'r rheini wedi rhoi rhesymau dros wneud hynny.

97. Ni nododd yr un ymatebydd unrhyw wrthwynebiad sylweddol i'r cynnig na ddylai dewis a wneir gan aelod o'r cynllun cyn iddynt farw allu cael ei wrthdroi gan oroeswr.

98. Roedd un ymatebydd o'r farn, lle nad oedd penderfynwr cymwys wedi gwneud penderfyniad, y dylai rheolwr y cynllun gael disgresiwn i benderfynu a oedd gwasanaeth cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015 neu gynllun gwaddol, ac y dylai ddewis yr opsiwn a arweiniodd at y pensiwn uwch. Roedd ymatebydd arall, er ei fod yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol, o'r farn y dylai disgresiwn o'r fath fodoli i ddelio ag amgylchiadau lle byddai defnyddio Cynllun 2015 yn "niweidiol iawn" i fuddiolwyr.

99. Nododd un ymatebydd anghysondeb yn ein rheoliadau drafft rhwng a oedd y cynllun diofyn yn gynllun 2015 neu'n gynllun gwaddol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

100. Nid ydym yn cefnogi rheolwyr cynlluniau sydd ag unrhyw bŵer i wneud penderfyniadau yn ôl disgresiwn ar ran aelodau neu eu goroeswyr. Ni allant wybod beth fyddai orau gan aelod ymadawedig, na pha ddewis fyddai orau iddynt. Yn yr un modd â phenderfyniadau aelodau'r cynllun eu hunain, credwn ei bod yn rhy syml lleihau dewisiadau i gymharu hawliau pensiwn blynyddol. Mae hynny'n bennaf oherwydd y bydd pensiwn uwch (fel Cynllun 1992 yn ildio'n gyffredinol) hefyd fel arfer yn creu rhwymedigaeth ar gyfer diffyg cyfraniadau sylweddol. Ni ellir disgwyl yn rhesymol i reolwr cynllun wybod a fyddai'n well gan aelod neu ei oroeswr gael pensiwn uwch neu atebolrwydd cyfraniadau i ad-dalu, neu bensiwn is heb atebolrwydd o'r fath. Felly, rydym yn credu y dylai'r sefyllfa ddiofyn fod yr un fath ym mhob achos, ac y dylid dweud wrth oroeswyr y bydd Cynllun 2015 yn berthnasol os na fyddant yn gwneud penderfyniad.

101. Ar ben hynny, yn achos buddion goroeswr ar gyfer aelodau a fu farw yn ystod cyfnod y rhwymedi, bydd y penderfyniad ynghylch pa gynllun sy'n berthnasol (mewn achosion lle'r oedd gan yr ymadawedig bartner sy'n cyd-fyw) hefyd yn benderfyniad ynghylch pwy sydd i dderbyn buddion goroeswr. Credwn y byddai gorfod gwneud penderfyniad o'r fath yn rhoi rheolwyr cynlluniau mewn sefyllfa amhosibl.

102. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r ymatebydd a nododd yr anghysondeb yn ein rheoliadau drafft. Bydd y rheoliadau terfynol yn nodi, pan na fydd penderfynwr cymwys yn cael ei gytuno, neu pan na fydd penderfyniad am fuddion marwolaeth yn cael ei wneud o fewn yr amserlenni perthnasol, bydd rheolwr y cynllun yn dod yn benderfynwr a bydd yn ofynnol i reolwr y cynllun ddewis buddion cynllun 2015.

103. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 16 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynigion canlynol:**

- **Dylid adennill gordaliadau budd-daliadau goroeswr a wnaed i oroeswyr sy'n benderfynwyr cymwys, ond dylid dileu gordaliadau i oroeswyr eraill; a**
- **Dim ond y penderfynwr cymwys fyddai'n gymwys i gael gwarged cyfraniadau, neu'n agored i ad-dalu diffyg mewn cyfraniadau, yn deillio o'i ddewis ei hun.**

104. O'r 15 ymateb a gafwyd i'r cwestiwn hwn, roedd 12 o blaid y cynigion yn y ddogfen ymgynghori. Roedd tri yn anghytuno, ond nid oedd dau ohonynt wedi rhoi rhesymau dros wneud hynny.

105. Credai un ymatebydd na ddylid adennill gordaliadau oherwydd eu bod yn deillio o wahaniaethu ar sail oedran, ac y dylid eu cadw fel math o iawndal am y gwahaniaethu hwnnw.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

106. Nod cyffredinol yr ateb yw rhoi aelodau (ac, yn yr achos hwn, eu goroeswyr) yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na bai'r trosglwyddiad anghyfiawn yn 2015 (neu'n ddiweddarach ar gyfer aelodau tapr) wedi digwydd. Mewn rhai amgylchiadau, bydd hynny'n creu rhwymedigaethau i aelodau – gan gynnwys gordaliadau pensiwn a diffygion mewn cyfraniadau yn y gorffennol.

107. Ni fyddai dileu'r diffygion hyn yn deg ar aelodau nad oes ganddynt hawl i rwymedi (fel unigolion a ymunodd â'r Gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2012). Byddai'n golygu y byddai aelodau yr effeithir arnynt, neu eu goroeswyr, i bob pwrpas yn cael yr un buddion pensiwn ag aelodau nad effeithir arnynt, ond am gost is, neu fuddion pensiwn gwell am yr un gost. Gallai hynny arwain at honiadau newydd o wahaniaethu ar sail oedran gan y rheini nad oes ganddynt hawl i rwymedi.

108. Fodd bynnag, rydym wedi cael gwybod bod adran 15(10) o Ddeddf 2022 yn nodi mai cynrychiolydd personol yr ymadawedig (ysgogydd neu weinyddwr ystad yr ymadawedig) sy'n atebol am ddiffyg cyfraniadau mewn perthynas ag aelod ymadawedig, nid unrhyw oroeswr. I bob pwrpas, mae unrhyw ddiffyg yn ddyled y mae'n rhaid ei chodi ar ystad yr ymadawedig. Felly, nid oes angen i ni ddarparu y dylai'r penderfynwr cymwys neu unrhyw un arall sydd â hawl i fudd-daliadau goroeswr fod yn atebol am ddiffyg o'r fath.

109. Ar ben hynny, wrth gwrs, gan y nifer o hawlwyr yn achos Sargeant wedi ceisio iawndal ariannol, fel rhan o'u camau cyfreithiol, am y niwed i deimladau sy'n deillio o wahaniaethu ar sail oedran. Byddai'n amlwg yn anghywir eu digolledu eto trwy ildio rhwymedigaethau sy'n ddyledus ganddynt hwy neu eu goroeswyr.

110. Fodd bynnag, mae hyn yn achosi problem mewn perthynas ag aelodau'r cynllun sydd â hawl i rwymedi a fu farw cyn i'r rheoliadau hyn ddod i rym. Mewn

achosion o'r fath, mae'n eithaf posibl bod asedau'r ymadawedig eisoes wedi'u dosbarthu i fuddiolwyr yn unol â'i ewyllys. Byddai hynny'n ei gwneud yn amhosibl adennill diffyg mewn cyfraniadau ac eithrio gan ysgutor neu weinyddwr yr ymadawedig yn uniongyrchol. Byddai hynny'n anghyfiawn iawn, yn enwedig os nad oedd gan yr unigolyn hwnnw hawl i unrhyw fudd-daliadau goroeswr. Mae risg y gallent, heb unrhyw fai arnynt eu hunain, ddod yn bersonol atebol am ddyled sylweddol.

111. Yn unol â hynny, yn y rheoliadau byddwn yn cynnwys pŵer disgresiwn i reolwyr cynlluniau hepgor rhwymedigaethau cyfraniadau y byddai'n rhaid eu hadennill gan gynrychiolydd personol yr ymadawedig. Byddem yn disgwyl i'r disgresiwn hwnnw gael ei ddefnyddio yn enwedig os oedd yr ystad eisoes wedi cael ei dosbarthu, ac nad oedd y cynrychiolydd personol yn oroeswr cymwys.

112. Yn amodol ar yr uchod, byddwn felly yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 17 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynigion canlynol:**

- **Dylid ailgyfrifo cyfandaliadau marwolaeth ar gyfer aelodau a fu farw yn ystod cyfnod y rhwymedi yn unol â dewis y penderfynwr cymwys, a dylid adennill unrhyw ostyngiad mewn cyfandaliad a dalwyd i'r penderfynwr cymwys; ond**
- **Dylid dileu unrhyw warged mewn cyfandaliadau marwolaeth a dalwyd i unigolion ar wahân i'r penderfynwr cymwys, neu i ystad yr ymadawedig.**
- **Pan fu farw aelod yr effeithiwyd arno yn ystod cyfnod y rhwymedi gan adael neb â hawl i bensiwn goroeswr, ond sydd ag enwebai dilys ar gyfer cyfandaliad marwolaeth Cynllun 2015, dylai rheolwr y cynllun dalu'r swm hwnnw heb orfod cynnig dewis i'r enwebai.**

113. O'r 14 ymatebydd a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 13 yn cytuno â'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

114. Roedd un ymatebydd wedi ailadrodd y pwynt a wnaed wrth ateb cwestiwn 16, sef na ddylid adennill gordaliadau o gwbl.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

115. Am y rhesymau a nodir yn ein hymateb i gwestiwn 16, nid ydym yn cytuno y byddai'n deg nac yn briodol i hepgor rhwymedigaethau sy'n ddyledus gan y rheini sydd â hawl i rwymedi.

116. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

## BUDDION PENSIWN YCHWANEGOL

**Cwestiwn 18 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynigion canlynol:**

- **Bydd aelodau â hawl a brynodd pensiwn ychwanegol Cynllun 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi yn gallu cael ad-daliad o'r gost hwnnw, ynghyd â llog; ond**

**• Ni fydd aelodau sydd i wneud dewis ar unwaith yn cael yr ad-daliad hwnnw os ydynt yn gwneud dewis ar unwaith o blaid Cynllun 2015.**

117. Roedd 11 o’r 18 ymatebydd yn cytuno â’n cynigion, roedd un ymatebydd yn ansicr ac ni wnaeth pedwar ymatebydd unrhyw sylw.

118. Roedd dau ymatebydd yn teimlo, yn hytrach na bod aelod yn cael ad-daliad pensiwn ychwanegol yng nghynllun 2015, y dylai gael yr opsiwn ei fod yn aros yng nghynllun 2015. Roedd un o’r ymatebwyr hynny’n teimlo y dylid gwneud hyn gydag addasiad fel bod y cyfraniadau’n gysylltiedig ag aelodaeth ar ôl Ebrill 2022 yn hytrach na phensiwn ychwanegol yn ystod cyfnod y rhwymedi. Roedd yr ymatebydd arall yn credu mai’r ffactorau actiwaraidd a ddefnyddir yw’r rhai oedd yn berthnasol ar yr adeg pan ddewisodd yr aelod ddechrau gwneud y cyfraniadau ychwanegol. Nododd yr ymatebydd hwn hefyd, gan fod cyfraniadau sy’n ofynnol i brynu pensiwn ychwanegol yn seiliedig ar oedran, na ddylai aelod orfod talu mwy i brynu pensiwn ychwanegol yn y cynllun diwygiedig wedi cyfnod y rhwymedi ar ôl cael iawndal am bensiwn ychwanegol a brynwyd yn ystod cyfnod y rhwymedi. Nodwyd hefyd fod cap ar y pensiwn ychwanegol y mae gan aelod hawl i’w brynu yn y cynllun diwygiedig.

119. Dyma’r materion eraill a godwyd :-

- Dylid ystyried a ellid defnyddio Buddion Pensiwn Ychwanegol yn hytrach na rhoi iawndal.
- Dywedodd un ymatebwr nad yw’n bosibl talu am bensiwn ychwanegol ar ôl ymddeol a bod ad-dalu cyfraniadau a’i gwneud yn ofynnol i aelod ad-dalu pensiwn sydd eisoes yn cael ei dalu yn mynd yn groes i bwrpas prynu’r pensiwn yn y lle cyntaf. Tynnodd ymatebydd arall sylw at y ffaith nad oedd yn ymddangos bod y rheoliadau drafft yn cynnwys darpariaeth ar gyfer ein cynnig i aelod dewis uniongyrchol gadw ei bensiwn ychwanegol cynllun 2015 hyd nes y bydd yn gwneud ei ddewis ar unwaith, a dim ond yn cael ad-daliad os nad yw’n dewis buddion cynllun 2015.
- Disgwylid y byddai cyfrifiannell GAD o ystyried mai pwrpas y polisi oedd i reolwyr cynlluniau ymgynghori ag actiwari’r cynllun i bennu swm yr iawndal.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

120. Rydym wedi nodi’r ddau ymateb sy’n cynnig y dylai aelodau allu dewis cadw eu pensiwn ychwanegol yng nghynllun 2015 yn hytrach na derbyn ad-daliad o gyfraniadau, ond roedd safbwyntiau ynghylch sut gallai hyn weithio yn amrywio. Nododd un ymatebydd y byddai angen i hyn fod ar delerau ar ôl y rhwymedi ac un arall ar delerau cyn y rhwymedi a oedd yn berthnasol pan brynodd yr aelod bensiwn ychwanegol yn wreiddiol. O ran y cynnig olaf, nid ydym yn credu y byddai’r dull hwn yn deg. Egwyddor sylfaenol rhwymedi yw bod aelodau yr effeithir arnynt, cyn belled ag y bo modd, yn cael eu rhoi yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na bai gwahaniaethu ar sail oedran wedi digwydd, a dyna pam y caiff yr holl aelodau eu trosglwyddo’n ôl i’r cynllun gwaddol ar gyfer cyfnod y rhwymedi. Ni fyddai aelodau’r cynllun gwaddol erioed wedi gallu prynu pensiwn ychwanegol 2015 yn ystod cyfnod y rhwymedi, a byddai caniatáu iddynt gario ymlaen blynyddoedd ychwanegol a brynwyd ar delerau cyfnod y rhwymedi yn eu rhoi mewn sefyllfa fwy manteisiol nag aelodau gwarchodedig. Byddai risg o wahaniaethu ar sail oedran ar ffurf wahanol

petaem yn gwneud darpariaeth o’r fath.  Rydym yn credu’n gryf mai ein cynigion i ganiatáu ar gyfer prynu blynyddoedd ychwanegol y cynllun gwaddol yn ôl-weithredol yw’r dull mwyaf teg.  O ran y cynnig cyntaf, gallwn weld y gallai hyn weithio mewn termau gweinyddol, ond credwn ei bod yn bwysig cadw penderfyniadau ynghylch gwasanaeth cyfnod y rhwymedi a gwasanaeth ar ôl unioni yn gwbl ar wahân i’w gilydd.

121. Mi oedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried a oedd modd defnyddio Buddion Pensiwn Ychwanegol yn y cynlluniau gwaddol fel dewis arall yn lle ad-dalu cyfraniadau wrth ddatblygu ein cynigion polisi.  Fe wnaethom ei ddiystyru oherwydd unwaith eto, nid ydym yn credu y byddai hyn yn gywir nac yn deg.  Cyflwynwyd Buddion Pensiwn Ychwanegol i ddelio ag agweddau ar gyflog pensiynadwy nad yw’n rheolaidd.  Nid yw cyfraniadau pensiwn gwirfoddol yn ffitio yn y diffiniad hwn, ac rydym yn poeni y byddai dull gweithredu o’r fath, nad oedd ar gael i aelodau gwarchodedig a allai fod wedi methu dyddiadau olaf Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol neu wedi cyrraedd y lefelau uchaf o flynyddoedd ychwanegol y caniateir ar eu cyfer yn rheolau’r cynllun, yn arwain at anghydraddoldeb rhwng y grwpiau o aelodau gwarchodedig a grwpiau nad ydynt yn cael eu gwarchod.

122. Rydym yn derbyn y dylai aelodau sydd eisoes wedi ymddeol ac sy’n derbyn eu pensiwn allu cadw eu buddion pensiwn ychwanegol.  Dyna pam, yn ein dogfen ymgynghori, y nodwyd y byddai darpariaeth yn cael ei gwneud i aelod dewis ar unwaith gadw ei bensiwn ychwanegol 2015 os bydd yn gwneud ei ddewis cyntaf ar gyfer buddion cynllun 2015.  Rydym bellach wedi gwneud darpariaeth ar gyfer hynny yn ein rheoliadau.

123. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 19 – I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r cynigion canlynol:**

- **Byddai gan yr aelodau yr effeithir arnynt hawl ôl-weithredol i brynu buddion pensiwn ychwanegol yn eu cynlluniau gwaddol yn ystod cyfnod y rhwymedi, ar yr un telerau a oedd yn berthnasol i bryniant o’r fath a chyda’r gost o wneud hynny wedi’i haddasu ar gyfer llog; a**
- **Rhaid i unrhyw ddewis o’r fath gael ei wneud o fewn blwyddyn i aelod dderbyn ei ddatganiad gwasanaeth adferol cychwynnol.**

124. Roedd 13 o’r 18 ymatebydd yn cytuno â’n cynigion, roedd tri yn ansicr neu heb roi sylwadau.  Cyfeiriodd tri ymatebydd at reolau mewn cynlluniau gwaddol, gan gynnwys, er enghraifft, ffactorau sy’n ymwneud ag oedran, a chymhwysedd sy’n ymwneud â “dyddiad ymuno” y bydd angen eu hystyried.  Dywedodd un o’r ymatebwyr hyn mai’r ffactorau actiwaraidd a ddefnyddiwyd i gyfrifo’r blynyddoedd ychwanegol a brynwyd ddylai gael eu defnyddio pan fyddai’r contract blynyddoedd ychwanegol wedi dechrau neu wedi parhau.  Dywedodd un ymatebydd y dylai goroeswyr hefyd allu prynu blynyddoedd ychwanegol pe bai’r aelod ymadawedig wedi bod yn gymwys i wneud hynny.  Gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd y cyfnodau amser y cyfeirir atynt yn Rheoliadau 33(3)(c)(i) 33(4)(c)(i) ill dau yn weithredol o ddyddiad y Datganiad Gwasanaeth Adferol cychwynnol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

125. Rydym yn cytuno y dylai aelodau sy'n dewis prynu pensiwn ychwanegol y cynllun gwaddol yn ôl-weithredol yn ystod cyfnod y rhwymedi allu gwneud hynny o dan y telerau a fyddai wedi bod ar gael ar y pryd. Dyna'r unig ffordd o sicrhau bod yr holl aelodau yr effeithir arnynt yn cael eu trin yn gyfartal ac yn cael eu hadlewyrchu yn y rheoliadau. Rydym hefyd yn cytuno y dylai cost prynu blynyddoedd ychwanegol fod y gost a fyddai wedi bod yn berthnasol ar yr adeg y byddai pryniant o'r fath wedi cael ei wneud yn ystod cyfnod y gwasanaeth adferol. Yn yr un modd â'r trefniadau ar gyfer yr holl gyfraniadau sy'n ddyledus yn fwy cyffredinol, bydd pob cyfraniad o'r fath yn amodol ar addasiadau treth a llog. Adlewyrchir hyn yn y rheoliadau. Nid yw'r rheoliadau'n darparu i oroeswyr brynu blynyddoedd ychwanegol yn ôl-weithredol oherwydd bod Deddf 2022 yn nodi na fydd aelodau ymadawedig yn cael eu cynnwys yn y darpariaethau hyn. Rydym yn cytuno nad oedd ein rheoliadau drafft yn glir bod y ddau gyfnod amser a nodwyd yn y rheoliadau ar gyfer gwneud cais am gytundeb adferol i brynu blynyddoedd ychwanegol ac ymrwymo iddo yn ymwneud â dyddiad cyhoeddi datganiad gwasanaeth adferol cyntaf yr aelod. Mae hyn bellach wedi cael ei egluro yn y rheoliadau terfynol. I fod yn glir, os bydd aelod yn prynu blynyddoedd ychwanegol ôl-weithredol yn y cynllun gwaddol ac wedyn yn gwneud dewis gohiriedig ar gyfer buddion cynllun 2015, yna bydd yn cael iawndal am ei gyfraniadau i'r cynllun gwaddol.

126. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

## YSGARIAD A DIDDYMIAD

**Cwestiwn 20 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer gorchmynion atafaelu pensiwn, sef:**

- **Lle bo gorchymyn atafaelu pensiwn eisoes mewn grym ond nad yw'r pensiwn yn cael ei dalu eto, ni ddylid cymryd unrhyw gamau;**
- **Os oes gorchymyn atafaelu pensiwn eisoes mewn grym a bod y pensiwn eisoes yn cael ei dalu, gall y pensiwn sy'n daladwy i'r aelod credyd pensiwn newid o ganlyniad i ddewis ar unwaith yr aelod debyd pensiwn, ond bod unrhyw ordaliad o bensiwn o'r fath yn y gorffennol sy'n deillio o'r dewis yn cael ei ddileu;**
- **Ar gyfer ysgariadau a diddymiadau sy'n digwydd yn y dyfodol ond cyn bod yr aelod debyd pensiwn wedi gwneud dewis gohiriedig, dylid cyfrifo gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar gyfer gwasanaeth cyfnod y rhwymedi yng nghynllun 2015 a'r cynllun gwaddol, a dylai'r llys ddefnyddio'r uchaf o'r ddau**

127. Roedd 14 o'r 18 ymatebydd yn cytuno â'n cynnig, gyda rhai'n nodi na ddylai'r aelod credyd pensiwn fod o dan anfantais oherwydd dewis a wnaed gan aelod debyd pensiwn. Fodd bynnag, rhoddodd un ymatebydd enghraifft o sefyllfa lle gallai aelod credyd pensiwn gael ei effeithio'n andwyol oherwydd ei fod yn 'unigolyn nad yw'n gwneud penderfyniadau', a chyfeiriodd at y darpariaethau ynghylch 'penderfynwyr nad ydynt yn gymwys'. Rhoddodd yr ymatebydd ragor o fanylion am

y broses reoli ar gyfer ceisiadau gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod a thynnodd sylw at bryderon ynghylch costau ac amseru darparu ail werth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod i aelodau.

128. Ni wnaeth pedwar ymatebydd unrhyw sylw o gwbl.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

129. Rydym yn nodi bod yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol â'n cynigion.

130. Rydym yn nodi pryder un ymatebydd ynghylch gorchmynion atafaelu pensiwn sydd eisoes mewn grym. Yn y rhan fwyaf o achosion lle mae'r pensiwn eisoes yn cael ei dalu, ni fydd hyn yn effeithio ar y cyn briod neu bartner sifil. Os bydd aelod y cynllun yn dewis pensiwn is, sy'n golygu bod gordaliadau wedi'u gwneud mewn egwyddor i'r cyn briod neu bartner sifil, bydd y gordaliadau'n cael eu dileu ond mae'n bosibl y bydd y taliad yn y dyfodol yn is. Neu, mae'n bosibl y bydd gan y cyn briod neu bartner sifil hawl i daliad ychwanegol pe bai'r aelod pensiwn wedi bod yn y cynllun amgen ar y pryd. Mewn rhai achosion prinnach, mae'n bosibl y bydd hawl y cyn briod neu bartner sifil hefyd yn cael ei leihau os oedd gan yr aelod pensiwn warchodaeth taprog, a byddai ei wasanaeth adferol ar gyfer cyfnod y rhwymedi cyfan yn (a) y cynllun gwaddol a (b) y cynllun newydd), yn is na'r hyn yr oedd yn seiliedig ar ei wasanaeth cymysg. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd unrhyw ordaliad yn cael ei ddileu.

131. Rydym yn nodi pryder yr ymatebwyr ynghylch costau ac amseriad gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar gyfer ysgariadau a diddymiadau sy'n digwydd yn y dyfodol ond cyn i'r aelod debyd pensiwn wneud dewis. Fodd bynnag, materion gweinyddol yw'r rhain ac nid yw'n fater i reoliadau'r cynllun.

**Cwestiwn 21 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer gorchmynion rhannu pensiwn sydd eisoes ar waith ar 1 Hydref 2023, sef:**

- **Mae datganiadau gwasanaeth adferol ar gyfer aelodau debyd pensiwn â hawl yn cynnwys debydau pensiwn yn seiliedig ar wasanaeth cyfnod y rhwymedi yn y cynllun gwaddol a chynllun 2015 (a gwneir dewisiadau gohiriedig ac ar unwaith yn unol â hynny);**
- **Dylai rheolwyr cynlluniau ailgyfrifo gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar adeg ysgaru neu ddiddymiad ar sail y cynllun nad oedd yr aelod debyd yn aelod ohono ar y pryd; ac**
- **Os yw'r gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod hwnnw'n uwch na'r un a ddefnyddir gan y llys, yna dylai'r aelod credyd pensiwn gael credyd pensiwn am y gwahaniaeth rhyngddynt.**

132. Roedd 14 o'r 18 ymatebydd yn cytuno bod ein cynigion ar gyfer gorchmynion rhannu pensiwn sydd eisoes ar waith ar 1 Hydref 2023 yn cyd-fynd ag egwyddorion cyffredinol rhwymedi. Roedd un o'r ymatebwyr wedi ailadrodd ei bryder blaenorol ynghylch costau ac amseru darparu ail werthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod i aelodau.

133. Ni roddodd pedwar ymatebydd eu barn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

134. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gefnogaeth gyffredinol, a byddwn felly yn bwrw ymlaen i roi'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori ar waith.

135. Rydym yn nodi pryder yr ymatebwyr ynghylch costau ac amseriad gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar gyfer ysgariadau a diddymiadau sy'n digwydd yn y dyfodol ond cyn i'r aelod debyd pensiwn wneud dewis. Fodd bynnag, materion gweinyddol yw'r rhain ac nid yw'n fater i reoliadau'r cynllun.

**Cwestiwn 22 – A ydych o blaid rhoi credyd pensiwn o'r fath yn awtomatig i fuddion yr aelod credyd pensiwn ym mha bynnag gynllun a oedd â'r gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod uchaf; neu a ddylid cynnig dewis i aelodau o'r fath ynghylch hynny?**

136. Roedd wyth o'r 18 ymatebydd o'r farn y dylid cynnig dewis i'r aelod credyd pensiwn, gydag un ymatebydd yn nodi y byddai'r opsiwn hwn yn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol o effaith niweidiol ar yr aelod credyd pensiwn.

137. Roedd tri ymatebydd o blaid cymhwyso'r gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod uwch yn awtomatig, gyda dau ymatebydd yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd yr aelod credyd pensiwn wedi bod yn destun y gwahaniaethu a nodwyd gan y Llys ac felly nad oeddent yn teimlo ei bod yn rhesymol rhoi dewis i'r aelodau hyn.

138. Ni roddodd pedwar ymatebydd eu barn. Ni esboniodd tri ymatebydd pa gynnig yr oeddent yn ei ffafrio.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

139. Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu barn ymatebwyr ar y mater hwn. I egluro'r sefyllfa, o dan ein cynigion bydd y gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod uchaf yn cael eu defnyddio'n awtomatig, a bydd aelodau credyd pensiwn sydd â chredyd pensiwn mewn cynllun gwaddol a chynllun 2015 yn gallu dewis pa gynllun y bydd unrhyw swm ychwanegol canlyniadol yn cael ei gredydu iddo. Ar gyfer aelodau credyd pensiwn yr oedd eu haelod debyd pensiwn cyfatebol yn aelod gwarchodedig tapr) bydd 2 gredyd yn cael eu cyfrifo ar gyfer buddion y cynllun gwaddol a chynllun 2015 sy'n cwmpasu cyfnod y rhwymedi cyfan ac, fel ar gyfer aelodau credyd pensiwn eraill, y swm uchaf fydd yn cael ei gymhwyso. Mewn rhai amgylchiadau, gallai'r uchaf o'r ddau gyfrifiad fod yn is na'r gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod cymysg ar gyfer cyfnod y rhwymedi, ond serch hynny bydd angen eu defnyddio. Dyma'r un dull sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob aelod gwarchodedig tapr.

140. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 23 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer gorchmynion rhannu pensiwn a wneir ar neu ar ôl 1 Hydref 2023, sef:**

- **Ar gyfer aelodau gweithredol a gohiriedig, dylai'r gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod a ddarperir i'r llys fod yn seiliedig ar wasanaeth cyfnod y rhwymedi yn y cynllun gwaddol.**
- **Pan fydd aelodau o'r fath wedyn yn gwneud dewis gohiriedig ar gyfer gwasanaeth cyfnod y rhwymedi yng Nghynllun 2015, bydd eu debyd pensiwn yn cael ei addasu yn unol â hynny (ond nid yw buddion yr aelod credyd pensiwn yn newid); ac**
- **Ar gyfer aelodau sydd wedi ymddeol ac sy'n cael ysgariad neu ddiddymiad ar ôl gwneud dewis ar unwaith neu ddewis gohiriedig, mae'r gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod a ddarperir i'r llys yn adlewyrchu'r dewis hwnnw.**

141. Roedd 14 o'r 18 o ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion ar gyfer gorchmynion rhannu pensiwn a wneir ar neu ar ôl 1 Hydref 2023. Nododd un ymatebydd fod y dull gweithredu'n adlewyrchu'n llawn yr egwyddor o ddychwelyd yr aelod i'r sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe bai wedi aros yn ei gynllun gwaddol tan fis Ebrill 2022. Ychwanegodd un ymatebydd fod y cynigion yn ymddangos yn deg ac yn rhesymol. Fodd bynnag, nododd un ymatebydd fod y dull arfaethedig yn wahanol i gynigion yn Lloegr a mynegodd bryder ynghylch y cymhlethdodau, y baich gweinyddol a'r goblygiadau cost y gallai hyn eu hachosi.

142. Ni roddodd pedwar ymatebydd eu barn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

143. Rydym yn nodi sylwadau ymatebwyr am y gwahaniaeth mewn dull gweithredu ar draws y DU. O ganlyniad, rydym wedi diwygio ein safbwynt polisi. Ar gyfer gorchmynion rhannu pensiwn yn y dyfodol, bydd rheolwr y cynllun yn cyfrifo dau werth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar sail y cynllun gwaddol a chynllun 2015 ac yn rhoi'r gwerth uchaf i'r llys. Adlewyrchir y safbwynt diwygiedig hwn yn y rheoliadau. Yn dibynnu ar ddewis yr aelod, ar gyfer aelodau gweithredol a gohiriedig, mae'n bosibl y bydd angen addasu'r debyd pensiwn ar ôl ymddeol.

144. Mewn perthynas ag aelodau wedi ymddeol sy'n cael ysgariad neu ddiddymiad ar ôl gwneud dewis uniongyrchol neu ohiriedig, byddwn yn symud ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 24 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trefniadau gwrthbwyso pensiwn, sef:**

**• Lle mae trefniadau gwrthbwyso eisoes ar waith pan ddaw ein rheoliadau i rym, ni chymerir unrhyw gamau; ac**
**• Ar gyfer ysgariadau a diddymiadau sy'n digwydd yn y dyfodol ond cyn bod yr aelod debyd pensiwn wedi gwneud dewis gohiriedig, dylid cyfrifo gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar gyfer gwasanaeth cyfnod y rhwymedi yng nghynllun 2015 a'r cynllun gwaddol, a dylai'r llys ddefnyddio'r uchaf o'r ddau**

145. Roedd 14 o'r 18 ymatebydd yn cytuno â'n cynigion ar gyfer trefniadau gwrthbwyso pensiwn. Nododd un ymatebydd y byddai'n anodd ailedrych ar drefniadau gwrthbwyso y cytunwyd arnynt yn flaenorol, yn enwedig gan nad oes gan y Gwasanaeth wybodaeth am y cyn briod neu bartner sifil. Nododd ymatebydd arall y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig ag ysgaru a diddymu, ac awgrymodd y gallai'r rhain fod yn achosion lle mae iawndal yn cael ei ystyried. Ni roddodd pedwar ymatebydd eu barn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

146. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y safbwyntiau'n gefnogol ar y cyfan, ac felly byddwn yn bwrw ymlaen i roi'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori ar waith.

## TROSGLWYDDO RHWNG CYNLLUNIAU

**Cwestiwn 25 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trosglwyddo clwb yn ystod cyfnod y rhwymedi, sef:**
**• Dylai rheolwr y cynllun anfon gyfrifo'r set arall o fuddion ar gyfer aelodau heb eu gwarchod ar sail gwasanaeth y cynllun gwaddol yn ystod cyfnod y rhwymedi, a rhoi gwybod am hynny i reolwr y cynllun derbyn, a ddylai wedyn drosi hynny'n wasanaeth yn y cynllun gwaddol perthnasol;**
**• Dylai rheolwr y cynllun anfon gyfrifo'r buddion cynllun CARE amgen ar gyfer aelodau gwarchodedig a rhoi gwybod am hynny i reolwr y cynllun derbyn fel y gellir creu swm budd-dal arall yn y cynllun derbyn; ond**
**• Ac eithrio ar gyfer trosglwyddiadau i neu o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, nid oes angen diwygio'r taliad gwirioneddol o'r cynllun anfon i'r cynllun derbyn.**

147. Roedd 13 o ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion. Nid oedd pump wedi rhoi sylwadau neu nid oedd ganddynt unrhyw farn benodol am ein cynigion. Nid oedd un ymatebydd yn cefnogi'n llwyr y rhesymeg dros beidio â mynnu bod taliadau rhwng cynlluniau'n cael eu diwygio (ac eithrio i neu o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol). Cododd nifer o ymatebwyr faterion yn ymwneud â'r prosesau gweinyddu ymarferol ar gyfer trosglwyddiadau gan gynnwys sut y dylid rhannu manylion y cyfraniadau a dalwyd neu sydd heb eu talu rhwng cynlluniau ac ar y dull cyfrifyddu ar gyfer trin trosglwyddiadau lle na wnaed unrhyw daliadau ychwanegol i mewn neu allan. Gofynnwyd am gyngor ar yr amserlenni disgwyliedig ar gyfer diwygio'r Memorandwm Clwb.

**Cwestiwn 26 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trosglwyddiadau nad ydynt yn rhai clwb / gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod yn ystod cyfnod y rhwymedi a hyd at 30 Medi 2023 sef:**

- **Dylai rheolwr y cynllun anfon ailgyfrifo'r gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar sail gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn y cynllun ac eithrio'r un y trosglwyddodd yr aelod ohono. Dylid didynnu unrhyw ddiffyg mewn cyfraniadau, net o dreth, ohono, a dylid ychwanegu unrhyw warged cyfraniadau, net o dreth, ato.**
- **Os yw'r canlyniad yn uwch na'r gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod a ddefnyddiwyd adeg y trosglwyddo, dylai rheolwr y cynllun wneud taliad trosglwyddo atodol am y gwahaniaeth, ynghyd â llog, i reolwr cynllun y cynllun sy'n derbyn.**
- **Os na all y cynllun sy'n derbyn gymryd taliad o'r fath, dylid ei roi fel iawndal yn uniongyrchol i'r aelod yn lle hynny.**

148. Roedd 13 o'r 18 ymatebydd yn cytuno â'n cynigion ar gyfer trosglwyddiadau heb fod yn glybiau/gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod yn ystod cyfnod y rhwymedi. Ni roddodd pedwar ymatebydd arall unrhyw sylwadau ac roedd un ymatebydd yn ansicr ond ni roddodd unrhyw fanylion pellach.

149. Roedd un ymatebydd yn cydnabod y dylai'r fethodoleg gysylltu â'r newidiadau treth yr oedd Cyllid a Thollau EF yn ymgynghori arnynt, nododd un arall y gallai aelodau fod wedi cael cyfle newydd i drosglwyddo buddion ar sail heb fod yn Glwb pan roeddent yn symud i gynllun 2015, ac y byddai angen delio â gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod o'r fath a dderbyniwyd yn ystod cyfnod y rhwymedi. Nododd ymatebydd arall nad oedd y papur ymgynghori yn ymdrin â throsglwyddiadau a fyddai wedi cael eu talu i gynllun gwaddol yr aelod pe na byddai wedi cael ei roi yng Nghynllun 2015.

**Cwestiwn 27 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer trosglwyddiadau yn y dyfodol, sef:**

- **Dylai rheolwr y cynllun anfon gyfrifo dau werth trosglwyddo neu werthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod, ar sail gwasanaeth cyfnod rhwymedi'r aelod yng Nghynllun 2015 a'i gynllun gwaddol.**
- **Ar gyfer gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod i gynlluniau y tu allan i'r sector cyhoeddus, os nad yw'r aelod wedi gwneud iawn eto am unrhyw ddiffyg mewn cyfraniadau neu os yw wedi cael unrhyw gyfraniadau dros ben, dylid tynnu'r cyfraniadau neu eu hychwanegu at y gwerth perthnasol.**
- **Yna dylid defnyddio'r uchaf o'r ddau werth at ddibenion y trosglwyddiad.**

150. Roedd 13 o ymatebwyr yn cytuno â'n cynigion. Roedd y pum ymatebydd arall naill ai heb roi ymateb, neu nid oedd ganddynt farn gref ar y cwestiwn.

**Cwestiwn 28 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ganiatáu i aelodau yr effeithir arnynt ailystyried a gwrthdroi penderfyniadau trosglwyddo a wnaed**

**yn ystod cyfnod y rhwymedi, ar yr amod y gall y cynllun anfon a derbyn ganiatáu i drosglwyddo gael ei wneud neu ei wrthdroi'n ôl-weithredol?**

151. Roedd 14 o ymatebwyr yn cytuno â'r cynigion. Cyfeiriodd un ymatebydd at gymhlethdodau gweinyddol, yr angen am ymgysylltu agos rhwng rheolwr y cynllun a gweinyddwr y cynllun, a rhai pryderon ynghylch gallu GAD i ariannu ceisiadau gan Awdurdodau Tân ac Achub ar draws y DU.

152. Ni roddodd gweddill yr ymatebwyr unrhyw sylwadau.

**Ymateb Cyfunol Llywodraeth Cymru i Gwestiynau 25, 26, 27 a 28:**

153. Rydym yn nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi ein dull cyffredinol o ailgyfrifo a rhannu symiau trosglwyddo ar delerau a buddion eraill y cynllun er mwyn i aelodau allu cael dewis o fuddion trosglwyddo ar ôl ymddeol. Roedd cefnogaeth gyffredinol hefyd i'n cynigion i ddarparu iawndal lle na allai cynllun sy'n derbyn gymryd trosglwyddiad "atodol".

154. Ni wnaethom ofyn cwestiwn penodol ynghylch rhinweddau dychwelyd trosglwyddiadau fel rhan o'r broses gyffredinol o ddychwelyd i aelodaeth o gynlluniau gwaddol ar gyfer cyfnod y rhwymedi er bod ein dogfen ymgynghori yn awgrymu bod hynny'n rhan o'n dull gweithredu polisi. Fodd bynnag, rydym wedi cael amser i bwyso a mesur y sefyllfa honno yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwn fod ein dull arfaethedig yn wahanol i'r hyn a gynigiwyd gan y Swyddfa Gartref, sy'n cynnig eithrio trosglwyddiadau cynllun 2015 o'r gofrestr ac yn hytrach cadw cofnod o'r trosglwyddiad gan ddefnyddio adran 18(8) o Ddeddf 2022, yn ogystal â chofnod o fuddion cynllun amgen o'r cynllun sy'n derbyn, nes bod yr aelod yn gwneud dewis ar ôl ymddeol. Nodwn y gall fod rhai cymhlethdodau ychwanegol gyda'r dull hwn ond rydym hefyd wedi cydnabod wrth ystyried ein dull gweithredu bod yr angen am gysondeb ar draws y cynlluniau diffoddwyr tân yn arbennig o bwysig o ran trosglwyddiadau. Nid oedd ein hymgynghoriad yn cynnwys y rheoliadau drafft penodol ar gyfer trosglwyddo. Mae'r rhain bellach wedi'u cynnwys yn ein rheoliadau ac maent yn adlewyrchu'r rheoliadau terfynol ar gyfer Lloegr a'r rheoliadau drafft ar gyfer yr Alban. Os na fyddai trosglwyddiad sydd wedi cael ei dderbyn i'r cynllun diwygiedig wedi cael ei dderbyn gan y cynllun gwaddol naill ai'n rhannol neu yn ei gyfanrwydd, gellir dyrannu'r trosglwyddiad i'r cynllun diwygiedig (os yw'r aelod yn aelod o'r cynllun diwygiedig o 1 Ebrill 2022 ymlaen), neu gall yr aelod gael iawndal hyd at werth cyfatebol y cynllun blaenorol.

155. Nodwn nad oedd y sail resymegol dros beidio â mynnu bod taliadau rhwng cynlluniau (ac eithrio Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) yn cael eu hailystyried yn cael ei chefnogi'n llawn. Fodd bynnag, dyma'r dull gweithredu cyffredinol y cytunwyd arno ar draws y cynlluniau sector cyhoeddus, ac ni fyddai'n ymarferol nac yn bosibl i'r cynlluniau diffoddwyr tân yng Nghymru eistedd y tu allan i'r trefniadau hyn.

156. O ran y cwestiwn ynghylch sut bydd gwerthoedd trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod "trosglwyddo i mewn" yn cael eu rheoli, ar gyfer trosglwyddiadau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus arall, bydd y cynllun sy'n derbyn yn cyfrifo buddion o dan reolau'r cynllun amgen (yn seiliedig ar werth amgen y cynllun a ddarperir gan y cynllun anfon) gan ragweld y broses dewis aelodau. Mae'r ddogfen

ymgynghori yn nodi, ar gyfer trosglwyddiadau o’r sector preifat, na fydd unrhyw newid i’r gwerthoedd trosglwyddo sy’n gyfwerth ag arian parod gan nad yw’r trosglwyddiadau hyn yn rhan o’r rhwymedi.

157. O ran materion gweinyddu a chanllawiau, bydd canllawiau actiwaraidd ar gael. Materion i reolwyr cynlluniau yw materion gweinyddol manwl ond rydym yn cytuno, lle mae ein rheoliadau’n atal rheoli trosglwyddiadau’n effeithiol, yn enwedig rhwng y cynllun diffoddwyr tân ledled y DU, y byddwn yn ceisio gweithio gyda’r gweinyddiaethau eraill i ddatrys unrhyw broblemau. Gobeithiwn y bydd ein cysoni â’r rheoliadau diffoddwyr tân yn y gweinyddiaethau eraill yn atal unrhyw broblemau o’r fath.

158. Mae Memorandwm Clwb y Sector Cyhoeddus yn eiddo i Swyddfa’r Cabinet ac yn cael ei reoli ganddi. Rydym yn ymwybodol bod Memorandwm y Clwb yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, a bod fersiwn drafft wedi cael ei rannu â rheolwyr a gweinyddwyr y cynllun. Fodd bynnag, nid yw Memorandwm y Clwb yn rhan o’r ymgynghoriad hwn.

159. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

## MATERION AMRYWIOL

**Cwestiwn 29 – Mae gennym ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. A ydych chi o'r farn y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig? Os ydych chi, pa un neu rai, a pham/pam ddim?**

160. Roedd nifer o’r ymatebwyr yn cytuno bod ystyriaeth wedi’i rhoi i’r rheini â nodweddion gwarchodedig, er bod rhai’n cynnig sylwadau pellach.

161. Ailadroddodd un ymatebydd ei farn ynghylch delio ag achosion o niwed ar unwaith. Cyfeiriodd ymatebydd arall at achosion lle gallai unigolyn y gwrthodwyd ymddeoliad ar sail afiechyd iddo ac a barhaodd mewn cyflogaeth deimlo nad oedd y niwed wedi'i asesu'n llawn. Ychwanegodd yr ymatebydd y dylid rhoi ystyriaeth bellach i’n cynigion ar gyfer adennill arian gan benderfynwyr cymwys er mwyn osgoi colled ariannol i’r unigolion hynny.

162. Teimlai un ymatebydd y byddai’r cynigion yn cael effaith ar oedran. Teimlai ymatebydd arall y gallai’r cynigion effeithio ar briodasau a phartneriaethau sifil.

163. Tynnodd un ymatebydd sylw at heriau posibl ynghylch y gwahaniaeth mewn dulliau gweithredu rhwng y DU a chynlluniau datganoledig.

164. Roedd y 10 ymatebydd arall naill ai heb roi sylwadau o gwbl neu nid oeddent yn siŵr a fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

165. Rydym yn nodi barn ymatebwyr ar ddelio ag achosion o niwed ar unwaith ac achosion ymddeoliad ar sail afiechyd. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd datrys achosion lle'r oedd ymddeoliad ar sail afiechyd wedi'i wrthod i unigolyn a'i fod wedi parhau mewn cyflogaeth yn dibynnu ar sut cafodd pob achos ei gwblhau. Gweler yr ymateb i gwestiynau 12 a 13 uchod.

166. O ran penderfynwyr cymwys, credwn y dylid adennill unrhyw ordaliad a wnaed i'r penderfynwr cymwys, gan ei fod yn ganlyniad naturiol i benderfyniad y penderfynwr cymwys ei hun. Mae ein cynigion yn rhoi dewis i'r penderfynwr cymwys ad-dalu unrhyw arian sy'n ddyledus ganddo, naill ai fel cyfandaliad neu fel didyniadau cyfnodol o daliadau pensiwn, beth bynnag y mae'r penderfynwr cymwys yn ei ffafrio.

167. Nodwn farn yr ymatebydd ar yr effaith y gallai ein cynigion ei chael ar oedran. Egwyddor sylfaenol rhwymedi yw bod aelodau yr effeithir arnynt, cyn belled ag y bo modd, yn cael eu rhoi yn y sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na bai gwahaniaethu ar sail oedran wedi digwydd. Credwn fod y cynigion hyn yn ffordd deg a chynhwysfawr o unioni'r gwahaniaethu ar sail oedran y mae aelodau'r cynllun wedi'i brofi, ac un sy'n cyd-fynd â thelerau Deddf 2022 a chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

168. Nid ydym yn credu bod ein cynigion yn cael unrhyw effaith wahaniaethol benodol ar sail statws priodasol. Er eu bod yn cynnwys darpariaethau ar gyfer ysgaru a diddymu, mae'r rhain yn caniatáu i'r prosesau presennol ar gyfer dyrannu buddion pensiwn rhwng partïon ddarparu ar gyfer y rhwymedi rydym yn ei gynnig.

169. Rydym yn cydnabod barn yr ymatebydd ar y gwahaniaethau mewn dull gweithredu ar draws y DU a'r heriau y gallai hyn eu creu. Rydym wedi ailystyried ein safbwynt ar gyfer rhai achosion, fel trosglwyddiadau, i gyd-fynd â'r dull gweithredu a ddefnyddir ledled y DU. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn fersiwn derfynol y rheoliadau. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb dros rai agweddau ar bensiynau diffoddwyr tân wedi'i ddatganoli i Weinidogion Cymru, ac nid yw cysondeb â rhannau eraill o'r DU yn nod ynddo'i hun. Felly, o ran materion fel hawliau i optio i mewn neu ad-dalu cyfraniadau, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion fel y nodir yn y ddogfen ymgynghori oherwydd ein bod yn credu eu bod yn decach i aelodau'r cynllun.

170. Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 30 – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynnig yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r**

**Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, a lliniaru'r effeithiau negyddol?**

171. Ni wnaed unrhyw sylwadau penodol ar wahân i gydnabod y bydd dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg.

172. Ni roddodd wyth ymatebydd eu barn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

173. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y bydd Awdurdodau Tân ac Achub yn parhau i gyfathrebu â'u haelodau yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg. Bydd ein rheoliadau terfynol hefyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

174. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 31 – Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

175. Ni wnaethpwyd sylwadau penodol ynghylch yr effaith y gallai'r polisi ei chael ar y Gymraeg, ac eithrio'r rhai a godwyd eisoes yng Nghwestiwn 30.

176. Ni roddodd wyth ymatebydd eu barn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

177. Nid oes unrhyw faterion i fynd i'r afael â hwy. Felly, byddwn yn bwrw ymlaen i weithredu'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori.

**Cwestiwn 32 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am ein cynigion nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cwestiynau eraill yn yr ymgynghoriad hwn?**

178. Cawsom nifer o ymatebion amrywiol i'r cwestiwn hwn, fel a ganlyn:

- Roedd nifer o ymgyngoreion o'r farn y byddai angen arweiniad ar reolwyr cynlluniau i weithredu'r rhwymedi fel y nodir yn y rheoliadau.
- Credai dau ymgynghorai y dylai'r rheoliadau fanylu ar yr amgylchiadau pan ddylai aelodau yr effeithir arnynt gael iawndal, neu lle y dylid gwrthdroi penderfyniadau amodol a wnaed ganddynt (hynny yw, penderfyniadau a oedd yn adlewyrchu'r gwahaniaethu roeddent wedi'i brofi).
- Roedd dau ymgynghorai o'r farn bod angen newidiadau i'r trefniadau ar gyfer datganiadau gwasanaeth adferol: y dylid eu cyfuno â datganiadau buddion

blynyddol y mae pob aelod eisoes yn eu derbyn; y dylid eu darparu i aelodau gohiriedig ar yr un sail â rhai gweithredol; ac y dylent nodi'r canlyniadau treth i'r rheini sy'n dewis ad-dalu eu pensiynau ar ôl ymddeol yn rhannol.

- Roedd un ymgynghorai o'r farn y dylai'r rheoliadau efelychu'r diffiniad o'r rheini sydd â hawl i gael rhwymedi yn adran 1 o Ddeddf 2022.
- Nododd un ymgynghorai y byddai'r gwaith o weithredu'r rhwymedi yn helaeth ac yn gymhleth, ac roedd yn gofyn am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer hyn.
- Gofynnodd un ymgynghorai sut y byddai'r rhwymedi hwn yn rhyngweithio â'r hyn a gynigir ar gyfer diffoddwyr tân wrth gefn gyda gwasanaeth cyn mis Mehefin 2000 (sydd i fod â hawl i brynu hwnnw fel gwasanaeth pensiynadwy, yn ôl-weithredol mewn perthynas ag ymarfer rhwymedi ar wahân).
- Roedd un ymgynghorai yn cwestiynu a allai rheolwyr cynlluniau ganiatáu i aelodau optio yn ôl i mewn i aelodaeth o'r cynllun am gyfnodau cyn cyfnod y rhwymedi; a nododd un arall nad oedd darpariaeth i aelodau sy'n optio yn ôl i mewn i dalu'r cyfraniadau angenrheidiol mewn rhandaliadau.
- Nododd un ymgynghorai ddiffyg cynnydd gan CThEF o ran creu cyfrifiannell ar gyfer goblygiadau treth y rhwymedi.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

179. Dyma ein hymatebion i'r materion hyn:

- Cytunwn y byddai'n ddefnyddiol i reolwyr cynlluniau gael arweiniad ac y byddem yn disgwyl i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol chwarae rhan ganolog yn y gwaith o ddarparu hynny. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bwerau ffurfiol i roi canllawiau statudol i reolwyr cynlluniau, ond byddwn yn parhau i weithio gyda nhw i gefnogi'r gwaith o roi'r rhwymedi ar waith.

- Nid ydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol nodi'n fanwl o dan ba amgylchiadau y dylai iawndal fod yn daladwy, neu y dylid gwrthdroi penderfyniadau amodol. Mae'r darpariaethau yn Neddf 2022 a Chyfarwyddiadau Trysorlys EF yn fwriadol hyblyg i ddelio â'r ystod eang o amgylchiadau posibl y daeth aelodau unigol o'r cynllun ar eu traws. Gallai unrhyw ymgais i ddiffinio'r amgylchiadau hynny allgáu eraill yn anfwriadol.

- Mae eisoes yn bosibl cyfuno datganiadau gwasanaeth adferol â datganiadau buddion blynyddol, ar gyfer yr aelodau hynny sydd â hawl i'r ddau. Ond mae hawliau aelodau gohiriedig i Ddatganiadau Gwasanaeth Adferol (dim mwy na bob blwyddyn, ar gais) wedi'u nodi yn adran 28(8) a (9) o Ddeddf 2022, ac ni allant gael eu trechu gan reolau'r cynllun.

- Mae'r diffiniad o'r rheini sydd â hawl i rwymedi yn adran 1 o Ddeddf 2022 yn uniongyrchol berthnasol i bob cynllun pensiwn sector cyhoeddus. Ni fyddai unrhyw ddiben ei ailadrodd yn rheolau ein cynllun; yn wir, nid oes gennym bŵer i wneud darpariaeth o'r fath yn y rheolau hynny.

- Rydym yn cytuno y bydd gweithredu'r rhwymedi yn gymhleth ac y bydd angen llawer o adnoddau, a byddwn yn parhau i weithio gyda rheolwyr cynlluniau yn hynny o beth lle y gallwn. Ond nid oes achos dros gael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yma. Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, nid ydym yn darparu cyllid craidd i Awdurdodau Tân ac Achub (ar gyfer costau pensiwn neu fel arall). Mae pensiynau diffoddwyr tân yn cael eu hariannu gan gyfraniadau cyflogwyr a gweithwyr, yn ogystal â grant ychwanegol gan y Trysorlys. Bydd unrhyw addasiadau sy'n ofynnol yn cael eu gwneud drwy gyfrifon pensiwn a bydd y Trysorlys yn talu am ddiffygion mewn cyllid blynyddol drwy Wariant a Reolir yn Flynyddol. Bydd addasiadau canlyniadol i gyfraniadau cyflogwyr yn cael eu cynnwys mewn prisiadau yn y dyfodol. Bydd angen i Awdurdodau Tân ac Achub ystyried costau gweinyddu'r cynlluniau yn eu trafodaethau ynghylch y gyllideb gyda'u hawdurdodau lleol cyfansoddol.

- Ar hyn o bryd, rydym yn ymgynghori ar newidiadau i reolau'r cynllun i ganiatáu i ddiffoddwyr tân wrth gefn brynu gwasanaeth pensiynadwy cyn mis Gorffennaf 2000. Heb ragfarnu canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, nid yw'n effeithio ar yr hawl i rwymedi o dan y cynigion hyn. Bydd diffoddwyr tân wrth gefn presennol neu flaenorol sy'n penderfynu prynu gwasanaeth yn ystod cyfnod y rhwymedi yn cael eu trin fel petaent yn optio yn ôl i mewn i fod yn aelodau o'r cynllun gwaddol.

- Nid yw adran 5 o Ddeddf 2022 yn caniatáu optio yn ôl i mewn i fod yn aelod o'r cynllun gwaddol am gyfnodau cyn cyfnod y rhwymedi. Mae'r rheoliadau eisoes yn darparu ar gyfer ad-dalu cyfraniadau gwasanaeth optio i mewn dros 10 mlynedd. Ymdrinnir â hyn yn y darpariaethau cyffredinol ar gyfer ad-dalu cyfraniadau.

- Mae materion sy'n ymwneud â threthu a chyfrifo treth sy'n ddyledus o ganlyniad i rwymedi yn faterion i Gyllid a Thollau EF, nid i Lywodraeth Cymru na'r rheoliadau hyn.

- Yn amodol ar yr uchod, byddwn yn bwrw ymlaen â gweithredu'r cynigion yn ein dogfen ymgynghori.

## Y CAMAU NESAF

180. Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Bydd Llywodraeth Cymru nawr yn bwrw ymlaen â'r gwaith o greu a gosod Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaethau Adferol) (Cymru) 2023 i ddod i rym ar 1 Hydref 2023. Bydd y rheoliadau'n cynnwys y diwygiadau sy'n cael eu hadlewyrchu yn ymatebion Llywodraeth Cymru yn y paragraffau uchod.

## ATODIAD 1 – RHESTR O'R YMATEBWYR

- Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub
- Undeb y Brigadau Tân
- Undeb y Brigadau Tân (Rhanbarth Gogledd Cymru)
- Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân
- Heywood Pension Technologies
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- 10 Ymateb gan Unigolion